# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**Y CYNGOR**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD IAU, 7FED HYDREF, 2021**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD Dydd Mercher, 29 Medi 2021)

**Geraint Owen**
**Pennaeth Gwasnaethau Democratiaeth**

**www.gwynedd.llyw.cymru**


**DYDD MERCHER, 29 MEDI 2021**

Annwyl Gynghorydd,

**CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – DYDD IAU, 7 HYDREF 2021**

**FE'CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod rhithiol drwy Zoom o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.00 y.h., DYDD IAU, 7FED HYDREF, 2021** i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Yr eiddoch yn gywir



Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. COFNODION** 6 - 25

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfodydd o'r Cyngor a gynhaliwyd ar y dyddiadau isod fel rhai cywir:-

- 28ain Mehefin, 2021 (Cyfarfod Arbennig)
- 8fed Gorffennaf, 2021

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

**5. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**6. CWESTIYNAU**

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Adran 4.19 o'r Cyfansoddiad.

**7. DATGANIAD CYNGOR GWYNEDD YNGHYLCH AMRYWIAETH** 26 - 28

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol.

**8. DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021 - DIWEDDARIAD CYFARFODYDD HYBRID** 29 - 31

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol.

**9. DIWYGIADAU I GYTUNDEB RHYNG-AWDURDOD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU** 32 - 44

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau.

**10. RHEOLI SEFYDLIADAU RHYW - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1982** 45 - 50

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Amgylchedd.

## 11. ADOLYGIAD O FFINIAU ETHOLIADOL GWYNEDD

Adroddiad i ddilyn.

## 12. RHYBUDDION O GYNNIG

### (A) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD ELWYN EDWARDS

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho dan Adran 4.20 o'r Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Elwyn Edwards yn cynnig fel a ganlyn:-

1. **Bod y Cyngor yn gofyn i'r Cabinet ystyried dynodi Dydd Gŵyl Ddewi yn swyddogol drwy roi diwrnod o wyliau i'w gweithlu er dathlu Diwrnod ein Nawddsant ar Fawrth 1af 2022 a phob blwyddyn o hynny ymlaen.**
2. **Bod y Cyngor yn galw ar Lywodraeth San Steffan i ddatganoli i Lywodraeth Cymru y grym iddynt fedru creu gwyliau banc i Gymru (drwy'r Banking and Financial Dealings Act 1971) – yn yr un modd ag yw'r drefn eisoes yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon.**

### (B) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD CATRIN WAGER

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrthi dan Adran 4.20 o'r Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Catrin Wager yn cynnig fel a ganlyn:-

1. **Bod y Cyngor hwn yn dymuno estyn croeso cynnes i ffoaduriaid o Affganistan sydd wedi cyrraedd Gwynedd yn ddiweddar, neu a fydd yn cyrraedd yn fuan.**
2. **Bod y Cyngor hwn yn cefnogi egwyddorion sylfaenol:-**
   - **Erthygl 14 Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol 1948, sy'n cydnabod hawl pobl i geisio lloches rhag cael eu herlid mewn gwledydd eraill, a**
   - **Confensiwn 1951 yn ymwneud â Statws Ffoaduriaid a Phrotocol 1967 yn ymwneud â Statws Ffoaduriaid.**
3. **Bod y Cyngor yn bryderus nad yw cynllun newydd arfaethedig llywodraeth y DU ar gyfer Mewnfudo yn cefnogi'r egwyddorion a amlinellir uchod, ac yn gwrthwynebu i wneud y weithred o geisio lloches yn drosedd.**

### (C) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD GRUFFYDD WILLIAMS

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho dan Adran 4.20 o'r Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Gruffydd Williams yn

cynnig fel a ganlyn:-

**Bod y Cyngor hwn , yn wyneb yr argyfwng diffyg cartrefi a achoswyd gan gynnydd prisiau eiddo, cynnydd ail gartrefi a dylanwad llwyfannau gosod eiddo tymor byr ar-lein, yn gofyn i'r Cabinet glustnodi'r holl arian a gesglir drwy godi premiwm treth cyngor ar ail dai / tai haf ar ddiwallu anghenion trigolion sydd yn byw yn yr ardaloedd lle mae'r argyfwng diffyg cartrefi ar ei waethaf, sef yn yr ardaloedd hynny lle cesglir y rhan fwyaf o'r premiwm treth. Mae Llywodraeth Cymru'n annog awdurdodau lleol i ddefnyddio unrhyw enillion ychwanegol a gynhyrchir gan godi'r premiwm i gynorthwyo diwallu anghenion tai lleol, yn unol â bwriadau polisi'r premiymau. Gan dderbyn nad oes gorfodaeth ar y Cyngor i wneud hyn, dyna'r peth cywir i'w wneud a dyna'r hyn sy'n ddisgwyliedig gan fwyafrif aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd ehangach.**

## (CH) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD KEVIN MORRIS JONES

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho dan Adran 4.20 o'r Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Kevin Morris Jones yn cynnig fel a ganlyn:-

**Bod y Cyngor hwn yn galw ar Lywodraeth Cymru i newid y ddeddf gynllunio ac yn ei wneud yn orfodol i unrhyw berson sydd am drosi tŷ annedd yn dŷ haf orfod cael hawl cynllunio i wneud hynny a bod yna drothwyon yn cael eu gosod mewn ardaloedd i gyfyngu ar y niferoedd o dai haf.**

# CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR DYDD LLUN, 28 MEHEFIN 2021

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Simon Glyn (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Elwyn Jones (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Craig ab Iago, Menna Baines, Beca Brown, Dylan Bullard, Stephen Churchman, Steve Collings, Annwen Daniels, R.Glyn Daniels, Anwen Davies, Elwyn Edwards, Aled Evans, Dylan Fernley, Peter Antony Garlick, Gareth Wyn Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, R.Medwyn Hughes, Judith Humphreys, Nia Jeffreys, Aeron M.Jones, Aled Wyn Jones, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Elin Walker Jones, Gareth Tudor Morris Jones, Huw Wyn Jones, Keith Jones, Kevin Morris Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Beth Lawton, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dewi Owen, Edgar Owen, W.Roy Owen, Nigel Pickavance, Rheinallt Puw, Peter Read, Dewi Wyn Roberts, Elfed P.Roberts, John Pughe Roberts, Paul Rowlinson, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Hefin Underwood, Catrin Wager, Cemlyn Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gethin Glyn Williams, Gruffydd Williams ac Owain Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Geraint Owen (Pennaeth Gwasanaeth Democratiaeth), Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd), Dewi Morgan (Pennaeth Cynorthwyol ar ran y Swyddog Cyllid Statudol), Vera Jones (Rheolwr Democratiaeth ac Iaith) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr:- Alan Jones Evans, Annwen Hughes, Peredur Jenkins, Eric Merfyn Jones, Linda A.W.Jones, Dilwyn Lloyd, Dafydd Owen, Jason Parry, Gareth A.Roberts a Mair Rowlands.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Cydymdeimlwyd â'r canlynol:-

- Y Cynghorydd Peredur Jenkins a'r teulu ar golli ei wraig yn ddiweddar.
- Teulu Gerald Williams, Yr Ysgwrn, Trawsfynydd – a gadwodd gartref Hedd Wyn dros y blynyddoedd.
- Teulu Sian Rhys Elis, Gweithiwr Cymdeithasol yn yr Adran Blant.

Nodwyd hefyd bod y Cyngor yn dymuno cofio am bawb o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Ymdawelodd y Cyngor fel arwydd o barch a choffadwriaeth.

Estynnwyd dymuniadau gorau am wellhad buan i'r Cynghorwyr Louise Hughes, Alan Jones-Evans a Beth Lawton.

Llongyfarchwyd Tim Pêl-droed Cymru ar eu llwyddiant yng Nghystadleuaeth yr Euros, a dymunwyd pob lwc i Dîm Denmarc am weddill y gystadleuaeth.

## 4. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 5. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD

Nodwyd, yn unol ag Adran 4.12.1(d) o'r Cyfansoddiad, y derbyniwyd llythyr gan y Cynghorydd Gruffydd Williams, wedi ei arwyddo gan bum aelod arall, yn galw am y cyfarfod arbennig hwn o'r Cyngor i drafod adolygu a diweddaru'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd o ran polisïau cynllunio a'r iaith Gymraeg yng nghyd-destun yr argyfwng tai sy'n bodoli o fewn y sir.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Gruffydd Williams i esbonio'r mater gerbron. Nododd:-

- Y dymunai ddiolch i bawb fu'n rhan o hwyluso'r cyfarfod arbennig hwn o'r Cyngor.
- Bod y rheswm dros alw'r cyfarfod yn amlygu ei hun yn ddyddiol yn y papurau a chyfryngau o bob math, yn ogystal â bod yn destun sgyrsiau ledled y sir y dyddiau hyn, sef yr argyfwng cartrefi i bobl leol yn ein cymunedau.
- Bod yna ddigon o dai yn y sir, ond bod y prisiau y tu hwnt i gyrraedd pobl leol, a bod hynny, yn ei dro, yn amddifadu'r bobl hynny o'u hawl sylfaenol i fyw yn eu cynefin.
- Nad oedd neb, ddim hyd yn oed y Cyngor hwn, wedi mynd i'r afael o ddifri â'r argyfwng. Cafwyd adroddiadau cydnabyddedig dros y blynyddoedd yn cynnig datrysiad i'r broblem, ond ni ddigwyddodd unrhyw beth, a phryderid na fyddai unrhyw beth yn dod o adroddiadau ac argymhellion diweddar chwaith, oni fo'r Cyngor hwn yn mynnu newid.
- Pan fabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd bedair blynedd yn ôl ar bleidlais fwrw'r Cadeirydd, lleisiwyd pryderon am effaith y Cynllun ar ein cymunedau lle mae'r iaith Gymraeg yn dal yn iaith hyfyw. Yn anffodus, roedd y diffygion amlygwyd yr adeg hynny wedi dod yn fwy amlwg, os nad wedi'u gwireddu'n gyfan gwbl erbyn hyn.
- Er y byddai'r gwaith o adolygu'r polisïau yn cychwyn mis nesaf fel sy'n ofynnol yn ôl y drefn, byddai'n sioc i lawer ddeall pa mor hirfaith yw'r amserlen ar gyfer cynnal adolygiad o'r fath.
- Yn ystod cyfarfod mabwysiadu'r Cynllun yn 2017, cafwyd addewidion gan yr Aelod Cabinet ar y pryd y byddai modd lleihau unrhyw niwed i'r Gymraeg drwy gryfhau'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar yr Iaith Gymraeg, ac y byddai'r Cabinet yn sefydlu pwyllgor craffu arbennig i fynd i'r afael â'r mater. Ar ôl 15 cyfarfod a rhagor gyda'r swyddogion, cadarnhawyd y pryderon bod y Canllawiau Atodol yn ddibwrpas, oni bai eu bod yn cael eu defnyddio ar gyfer ceisiadau ar hap.
- Y bu i'r Aelod Cabinet hefyd roi addewid yn y cyfarfod hwnnw y byddai'r Cynllun yn cael ei fonitro'n flynyddol, ac y byddai'n bosib' newid y polisïau o fewn 4 blynedd, pe gwelid nad oeddent yn gweithio. Ond cafodd y Cyngor ei gamarwain yn 2017, gan y byddai yna gyfnod ychwanegol o 3.5 mlynedd cyn y byddai unrhyw newidiadau yn cael eu gwireddu.
- Mai dogfen farw yw'r Cynllun, a bydd yr iaith Gymraeg wedi marw hefyd, oni fo'r Cyngor hwn yn gwneud penderfyniadau radical a phellgyrhaeddol.
- Mai argymhelliad y Cabinet i'r Cyngor yn Rhagfyr 2020 oedd i gadw'r premiwm treth cyngor ar ail gartrefi yn 50%, ond drwy bwysau gan aelodau unigol, gorfodwyd y Cyngor i fynd i ymgynghoriad, ac yn y diwedd penderfynodd y Cyngor godi'r premiwm 100%, sef yr uchafswm a ganiateir yn ôl Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Gan hynny, roedd y bêl yn ôl yng nghwrt y Prif Weinidog, a disgwylid yn eiddgar am ei adroddiad ddiwedd y mis hwn.

- Er bod gwaith ymchwil y Cyngor ar y cyd â'r Llywodraeth ar reoli'r defnydd o dai fel cartrefi gwyliau i'w ganmol, dylid cwestiynu pam bod yr adroddiad hollbwysig yma wedi canolbwyntio ar draean y broblem sy'n wynebu ein cymunedau, gan ddiystyru dwy ran o dair arall y broblem, sef y broblem tai haf.
- Bod yr aelodau hynny o'r Cyngor nad ydynt yn aelodau Cabinet yn teimlo bod eu llais a'u hawgrymiadau hwy yn cael eu llwyr anwybyddu gan yr Arweinyddiaeth a gan y swyddogion sydd ynghlwm â'r Cynllun.
- Bod angen i'r Cyngor hwn, yn wyneb yr argyfwng arswydus sydd ohoni, fynd i'r afael â'r gwaith o adolygu'r Cynllun yn ddiymdroi, gan anwybyddu'r cyfarwyddyd 3.5 mlynedd, a neilltuo ei holl egni a'i adnoddau i sicrhau gwireddu'r newidiadau angenrheidiol o fewn chwe mis.
- Bod yr Arweinydd wedi datgan yn flaenorol mai dymuniad clir a chadarn Cyngor Gwynedd yw defnyddio pob mesur posib' i geisio ymateb i'r argyfwng tai sy'n wynebu trigolion y sir yn eu cymunedau. Dyma'r cyfle i wireddu hynny, gan fod ein hiaith, ein hunaniaeth a'n cymunedau yn y fantol.

Cynigiodd y Cynghorydd Gruffydd Williams fel a ganlyn:-

*"Bod y Cyngor hwn yn edrych ar frys ar y Cynllun Datblygu Lleol (basiwyd 28.7.2017) gyda golwg i'w adolygu a'i ddiweddaru o ran polisïau cynllunio a'r iaith Gymraeg. Byddai'n ddymunol rhoi blaenoriaeth neilltuol i hyn, heibio yr hyn a nodwyd fel yr amser monitro arferol o fewn y Cynllun ei hun, a chyflwyno cynigion sy'n cyfateb i adroddiad Dr Simon Brooks "Ail Gartrefi – Datblygu Polisïau Newydd yng Nghymru" a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.*

*Yn dilyn y Pandemig a'r ffaith na fydd yna Wylfa B, disgwylir y bydd cyfarfod o'r fath yn cyfarch y newidiadau angenrheidiol sydd eu hangen i gydymffurfio â Deddf Llesiant Cymru, Cymru sydd yn fwy cyfartal a Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.*

*Yn wyneb yr argyfwng cartrefi ac effaith hyn ar Gymreictod cymunedau, gofynnwn i'r Cyngor fel a ganlyn:-*

1. *cymeradwyo gweithredu'r argymhellion a geir yn adroddiad Dr Simon Brooks;*
2. *adolygu ar frys addasrwydd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn, yn wyneb yr amgylchiadau presennol, er enghraifft datblygiad Wylfa B a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;*
3. *gwahodd sylwadau perthnasol gan y cynghorwyr a'r cyhoedd ar sut y dylid diwygio ac addasu'r Cynllun erbyn amser penodedig;*
4. *sefydlu pwyllgor i gloriannu'r sylwadau a chynnig unrhyw newidiadau i'r Cynllun.*
5. *cynnal cyfarfod arbennig o'r Cyngor i drafod cymeradwyo unrhyw newidiadau o fewn 6 mis i heddiw, a gofyn i Gyngor Ynys Môn ystyried gwneud camau cyffelyb i'r uchod."*

Ar bwynt o drefn ar y cynnig, eglurodd y Swyddog Monitro:-

- Bod amserlen adolygu'r Cynllun yn fater y byddai'n rhaid i'r Cyngor llawn gytuno arno. Cam cyntaf y broses fyddai cyflwyno Cytundeb Cyflawni gerbron y Cyngor i'w fabwysiadu. Roedd y Cytundeb Cyflawni yn offeryn rheoli prosiect, oedd yn gosod yr amserlen ar gyfer cynhyrchu'r Cynllun yn dilyn y rheoliadau statudol.
- Bod yr amserlen a nodwyd yn yr adroddiad ar hyn o bryd yn adlewyrchu'r hyn oedd yng nghanllawiau'r Llywodraeth ynglŷn â'r amserlen bosib', ac amcan ydoedd.
- Na fyddai'n gyfreithiol bosib' dod i gasgliad ar newidiadau i'r Cynllun o fewn cyfnod o 6 mis, gan nad oedd y gyfundrefn yn caniatáu amserlen mor gyfyng â hynny o safbwynt ystod y gwaith a'r gofynion ymgynghori a'r trefniadau ymgysylltu sy'n rhaid

eu dilyn. Gan hynny, pwysleisiwyd nad oedd gosod cyfnod o 6 mis ar gyfer dod yn ôl i'r Cyngor gydag addasiadau i'r cynllun yn gynnig priodol.

- Y gallai'r Cyngor roi briff i'r swyddogion cynllunio symud ymlaen gyda'r gwaith cyn gynted â phosib'.
- Bod y cymal ynglŷn â sefydlu pwyllgor yn ddi-angen gan y byddai'r pwyllgor ar y cyd sy'n bodoli eisoes yn cael ei adolygu fel rhan o'r broses.

Mewn ymateb, nododd y Cynghorydd Gruffydd Williams:-

- Ei fod wedi gofyn am wneud y newidiadau o fewn fframwaith llai o amser gan nad oedd gan ein cymunedau y 3.5 blynedd ddisgwyliedig i fynd i'r afael â hyn.
- Bod raid i'r Cyngor roi ei holl adnoddau i mewn i hyn, a pheidio cymryd yn ganiataol nad oes modd gwneud y gwaith.
- Y rhoddwyd addewid ar adeg mabwysiadu'r Cynllun yn 2017 bod modd ei newid o fewn 4 blynedd, ond y deellid bellach ei bod am gymryd 7.5 mlynedd i wneud newidiadau.
- Efallai bod y 3.5 blynedd o fewn fframwaith cyfreithiol, ond nid oedd o fewn fframwaith moesol i barhau fel hyn am 3.5 blynedd arall, yn wyneb yr argyfwng cartrefi, y pandemig a'r ffaith na fydd yna Wylfa B.

Nododd y Prif Weithredwr:-

- Bod pawb yn dymuno gweld y broses yn digwydd cyn gynted â phosib', a'i fod yn cydymdeimlo â'r sylwadau. Er hynny, cafwyd barn gyfreithiol nad oedd modd cyflawni proses o'r fath o fewn 6 mis, a phetai'r Cyngor yn gweithredu mor gyflym a hynny, gallai fod yn agored i her.
- Mai cam cyntaf y broses fyddai cychwyn ar yr Adroddiad Adolygu. Yr ail gam fyddai dod ag amserlen yn ôl i'r Cyngor ei mabwysiadu, ac roedd y swyddogion cynllunio yn ymwybodol bod cyfarwyddyd gan yr aelodau iddynt geisio gwneud hynny cyn gynted â phosib'.

Nododd y Cynghorydd Gruffydd Williams ei ddymuniad i ychwanegu cynffon i'r cynnig, sef bod y Cyngor hefyd yn ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru, Mark Drakeford, i bwyso am gael hawl gweithredu ar amserlen fyrrach.

Er eglurder, gofynnwyd i'r Swyddog Monitro eirio'r cynnig. Nodwyd mai'r cynnig oedd:-

*"Bod y Cyngor hwn yn edrych ar frys ar y Cynllun Datblygu Lleol (basiwyd 28.7.2017) gyda golwg i'w adolygu a'i ddiweddaru o ran polisïau cynllunio a'r iaith Gymraeg. Byddai'n ddymunol rhoi blaenoriaeth neilltuol i hyn, heibio yr hyn a nodwyd fel yr amser monitro arferol o fewn y Cynllun ei hun, a chyflwyno cynigion sy'n cyfateb i adroddiad Dr Simon Brooks "Ail Gartrefi – Datblygu Polisïau Newydd yng Nghymru" a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.*

*Yn dilyn y Pandemig a'r ffaith na fydd yna Wylfa B, disgwylir y bydd cyfarfod o'r fath yn cyfarch y newidiadau angenrheidiol sydd eu hangen i gydymffurfio â Deddf Llesiant Cymru, Cymru sydd yn fwy cyfartal a Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.*

*Felly, yn wyneb yr argyfwng tai a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, bod rhaid symud ar frys i adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol; bod y broses yma'n cymryd sylw llawn o farn aelodau a'r gymuned, a bod y Cyngor yn symud ymlaen cyn gynted ag y bo'r modd i baratoi'r Adroddiad Adolygu, a chyflwyno Cytundeb Cyflawni gerbron y Cyngor. Hefyd, bod y Cyngor yn ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru, Mark Drakeford, i bwyso am gael hawl gweithredu ar amserlen fyrrach."*

Nododd y Cynghorydd Gruffydd Williams ei fod yn fodlon gyda geiriad y cynnig. Eiliwyd y cynnig.

Yna gwahoddwyd yr Aelod Cabinet Amgylchedd i roi ei ymateb. Nododd:-

- Bod y Ddeddf Gynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn nodi fod angen adolygu Cynllun Datblygu Lleol 4 mlynedd yn dilyn mabwysiadu, ac y mabwysiadwyd Cynllun Gwynedd a Môn ym mis Gorffennaf 2017.
- Ei bod yn bwysig cofio bod y drefn yn un statudol, a bod rhaid i unrhyw drefn statudol ddilyn llythyren y gyfraith.
- Fel rhan o baratoi'r Adroddiad Adolygu, ac wrth baratoi Cynllun ar y Cyd diwygiedig, y byddai'n rhaid rhoi ystyriaeth lawn i sefyllfa ddiweddaraf cynllun Wylfa Newydd.
- Y byddai adolygiad llawn o'r Cynllun yn cymryd 3.5 blynedd, ac adolygiad ffurf fer yn cymryd 1.5 blynedd.
- Bod ymateb y Cabinet i adroddiad Dr Simon Brooks, ynghyd â gwaith ymchwil y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd ar reoli'r defnydd o dai fel cartrefi gwyliau (a dderbyniodd gymeradwyaeth unfrydol y Pwyllgor Craffu Cymunedau ym mis Rhagfyr y llynedd) ynghlwm i'r adroddiad i'r Cyngor.
- Ei fod yn cefnogi'r egwyddor o gychwyn heb oedi ar y gwaith o adolygu'r Cynllun, ond mai'r bwriad oedd i'r drefn adolygu ddechrau mis nesaf beth bynnag.
- Er na ellid rhagdybio'r broses o lunio polisïau cynllunio cyn i'r adolygiad gychwyn, ac o gofio bod rhan helaeth o adroddiad Dr Simon Brooks yn seiliedig ar waith Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd, y byddai cynigion Dr Brooks yn derbyn ystyriaeth lawn.
- Bod y Cabinet eisoes wedi penderfynu cefnogi holl argymhellion adroddiad Dr Brooks, gydag addasiad i argymhelliad rhif 7 – Llety gwyliau tymor byr a threthi busnes.

Gwahoddwyd y Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd i ddweud gair. Nododd:-

- Mai adroddiad ffeithiol oedd gerbron y Cyngor a bod y broses yn un statudol.
- Bod canllawiau'r Llywodraeth yn gosod allan yr amserlen berthnasol, ond petai'n bosib' gwneud y gwaith yn gyflymach, y byddai'r swyddogion yn sicr yn ceisio gwneud hynny, gan ddod ag amserlen gerbron y Cyngor llawn fel rhan o'r Cytundeb Cyflawni.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, mynegwyd cefnogaeth frwd i'r cynnig gan nifer o aelodau. Nodwyd:-

- Na fyddai'r Cyngor hwn fyth yn trafod mater mor fawr â'r mater oedd gerbron heddiw, a diolchwyd i'r Cynghorydd Gruffydd Williams am godi a chyflwyno'r mater pwysig ac amserol hwn gydag arddeliad.
- Bod gennym bandemig tai yng Ngwynedd. Ym Mawrth 2020, newidiwyd deddfau dros nos yn sgil yr argyfwng Covid. Pam, felly, nad oedd yr un peth yn gallu digwydd yma, gan fod yr argyfwng cartrefi presennol yn ddigonol i fod yn cyfiawnhau galw am hynny yn y ffordd gryfaf bosib'?
- Bod niferoedd tai, ac yn arbennig niferoedd tai marchnad agored, wedi bod yn destun cynen gyda'r Cynllun hwn o'r cychwyn, a gyda'r farchnad agored a phrisiau tai fel y maent, roedd yn anodd credu y byddai mwyafrif y tai a godir yn y misoedd a'r blynyddoedd nesaf o fewn cyrraedd pobl Gwynedd.
- Yn unol â Ffordd Gwynedd, dylai'r Cyngor hwn roi pobl Gwynedd yn ganolog i'w benderfyniadau, ond ni ellid bod yn sicr bod hynny'n digwydd yma rŵan.
- 4 blynedd yn ôl, pan fabwysiadwyd y Cynllun, y bu i'r Aelod Cabinet ar y pryd ddweud y byddai'n cael ei fonitro, ac yn cael ei adolygu ar ôl 4 blynedd, ac os nad oedd yr aelodau'n hapus, y byddai modd newid pethau cyn hynny petai raid. Pam felly na soniwyd am y cyfnod o 3.5 blynedd ar yr adeg hynny?

- Na allai to ifanc y sir aros 3.5 blynedd am yr hawl i fyw adref, a gobeithid y byddai modd symud ymlaen ar frys i addasu'r Cynllun.
- Bod brys hefyd i adolygu'r Cynllun gan fod oes y Cyngor presennol yn dirwyn i ben ymhen tua 10 mis. Y Cyngor presennol oedd wedi mabwysiadu'r Cynllun, o un bleidlais, ac roedd dyletswydd ar yr aelodaeth bresennol i wneud popeth o fewn eu gallu i'w addasu yn wyneb yr amgylchiadau hollol ddigynsail o ganlyniad i effeithiau Brexit a Covid ar y sefyllfa dai.
- Bod diffyg cartrefi yn ein hardaloedd yn broblem ers hanner can mlynedd. Roedd y pwysau mwyaf ar yr ardaloedd mwyaf Cymreig, a bron iawn y gellid mynd mor bell â dweud bod ymgais yma i ladd ein hiaith a'n hunaniaeth.
- Bod erthygl ddiweddar yn y Guardian yn crynhoi'r sefyllfa drwy ddweud *"The underlying reason for Britain's lack of housing problem is not lack of supply, but that greed has been allowed to displace need."*
- Y byddai canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn dangos cynnydd mewn siaradwyr Cymraeg, diolch i ysgolion Cymraeg y De yn bennaf, ond nid oedd y Gymraeg yn iaith gymunedol yn yr ardaloedd hynny, ac roedd yn rhaid i'r Gymraeg fod yn iaith gymunedol i ffynnu.
- Bod rhaid perchnogi hyn a gwneud popeth y gallwn i sicrhau bod y broblem cartrefi yn cael ei datrys unwaith ac am byth, gan ofyn i Gyngor Ynys Môn ddilyn yr un trywydd.
- Bod angen i bawb gefnogi'r cynnig a symud gyda'n gilydd i'r un cyfeiriad, gan fynd â'r bobl gyda ni er lles ein cymunedau.
- Bod diflaniad Wylfa B wedi ein gadael gyda chynllun drws agored, gan nad oedd bellach angen yr 8,000 o dai ychwanegol a ganiatawyd ar draws Gwynedd a Môn.
- Bod angen herio'r cyfyngiadau cyfreithiol o safbwynt yr amserlen.
- Bod arian mawr yn prynu ein tai a'n capeli fel ail gartrefi ac yn dinistrio ein diwylliant a'n hiaith.
- Oni ddylai aelodau o'r Cyngor ac Aelodau Seneddol a Chynulliad sy'n berchen ar ail-gartrefi, neu sydd â pherthnasau agos gydag ail gartrefi, ddatgan hynny yn gyhoeddus?
- Ei bod yn hollbwysig ehangu'r polisi tai marchnad leol i fwy o lefydd, a thros Wynedd a Môn.
- Bod Cyngor Sir Northumberland yn ymgynghori ar eu cynllun datblygu lleol drafft, ac yn gofyn am amod prif gartref ar dai preswyl mewn rhai ardaloedd.
- Y deellid bod yna brosesau i'w dilyn, ond bod rhaid bod yn ofalus rhag mynd ar goll mewn cors o brosesau.
- Bod gennym stoc tai yn y sir, ond Airb&b's a thai haf yw cyfran sylweddol ohonynt, a'i bod yn amserol i fynd ar ôl y perchnogion hynny sydd wedi trosglwyddo i'r Dreth Fusnes er mwyn osgoi talu Treth Cyngor, gan hefyd wneud lefel y Dreth yn seiliedig ar y nifer y bobl sy'n aros yn y tai.
- Er bod y Cynllun yn ddogfen o bwys, ac yn gwneud gwahaniaeth i bobl Gwynedd, roedd bellach yn annigonol ac yn anaddas yn sgil diflaniad Wylfa B, y pandemig a'r cynnydd di-gynsail ym mhryniannau ail-gartrefi.
- Gan fod y nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg a chymunedau bregus yma yng Ngwynedd, cam gwag ar ran y Cyngor fyddai oedi a pheidio adolygu'r Cynllun ar frys, waeth beth oedd trefn y protocol swyddogol parthed adolygu cynlluniau datblygu.
- Bod yna brinder swyddi sy'n talu'n dda yng Ngwynedd, a bod y pandemig wedi gwneud y sefyllfa'n llawer gwaeth, yn arbennig yn yr ardaloedd arfordirol.
- Bod llety gwyliau yn creu problemau enfawr gydag ymddygiad gwrth-gymdeithasol a sŵn yn effeithio ar eiddo cyfagos.
- Bod miloedd ar y rhestr aros am dŷ yng Ngwynedd ers blynddoedd, a bod pob pryniant ail-gartref yn tynnu tŷ arall i ffwrdd oddi ar y bobl leol. Roedd enghreifftiau hyd yn oed, o bobl leol yn byw mewn pebyll, heb obaith o brynu na rhentu tŷ.

- Bod tai yn gwerthu am grocbris, gyda rhai pobl bellach yn prynu tai heb hyd yn oed fynd i'w gweld yn gyntaf.
- Bod y mater pwysig hwn yn uno'r holl gynghorwyr, gyda phawb yn cytuno bod y sefyllfa yn anfoesol.
- Mai rhan bychan o'r ateb oedd y Cynllun Datblygu Lleol, a rhan oedd yn mynd i gymryd amser maith i weithredu arno. Fodd bynnag, roedd yna 3 argymhelliad y gallai'r Llywodraeth weithredu arnynt y flwyddyn yma i reoli'r argyfwng (sef ymgynghori ynglŷn â'r posibilrwydd o eithrio llety gwyliau tymor byr rhag bod yn gymwys ar gyfer rhyddhad trethi busnesau bach, creu dosbarth defnydd newydd ar gyfer llety gwyliau tymor byr a chyflwyno Cynllun Trwyddedu Gorfodol ar gyfer cartrefi gwyliau) ac roedd angen rhoi pwysau ar y Llywodraeth i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn ar unwaith.
- Ei bod yn anodd i bobl leol sydd wedi etifeddu eiddo gael arian i adnewyddu'r tai hynny a thalu'r premiwm treth cyngor ar ben eu morgais / rhent ar eu prif gartref.
- Pam na ellid rhoi cap yn syth ar y niferoedd o dai haf mewn unrhyw gymuned?
- Ei bod yn siomedig nad yw'r argyfwng newid hinsawdd wedi'i adnabod fel mater y bydd angen rhoi ystyriaeth lawn iddo fel rhan o baratoi'r Adroddiad Adolygu ac wrth baratoi Cynllun diwygiedig. Roedd yn bwysig bod hynny'n cael ei gydnabod yn ein polisïau cynllunio rŵan, os am sicrhau'r cymunedau ffyniannus Cymreig y dymunwn eu gweld i'r dyfodol.
- Nad oedd yr argyfwng tai yn broblem y gallai Cyngor Gwynedd ei datrys ar ei ben ei hun. Roedd y Cyngor wedi bod yn lobio yn y maes hwn ers blynyddoedd, a bellach wedi casglu tystiolaeth i gefnogi ein safbwynt gyda gwaith ymchwil safonol iawn, ac wedi cael cefnogaeth rhai o gynghorau eraill Cymru.

Nododd yr Arweinydd:-

- Bod y cyfarfod hwn yn gyfle i'r aelodau fynegi eu hangerdd a'u pryder ynglŷn â'r sefyllfa sy'n gyffredin i bawb.
- Bod y drafodaeth wedi amlygu pa mor anystwyth yw'r drefn gynllunio, a chyn lleied o rym sydd gan lywodraeth leol wrth lunio cynllun o'r fath.
- Ei fod yn hapus iawn i ysgrifennu heddiw at Brif Weinidog Cymru yn gofyn am adolygiad llawn o'r drefn gynllunio.
- Ei bod yn bwysig cael trafodaeth ynglŷn â pha fath o drefn gynllunio y dymunid ei gweld, a rhan yn unig o'r ateb oedd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.
- Y gellid cael mwy o ddylanwad yn y maes ail gartrefi gyda'r 3 argymhelliad y cyfeiriwyd atynt eisoes yn ystod y drafodaeth, ac sy'n bosib' gweithredu arnynt yn fuan.
- Y bu iddo godi'r materion hyn gyda Phrif Weinidog Cymru mewn cyfarfod diweddar o Gymdeithas Llywodraeth Cymru, ac y bu i'r Prif Weinidog fynegi diddordeb yn y mater, gan roi addewid y byddai'n ymweld â ni yng Ngwynedd rhywdro yn y dyfodol agos i gael trafodaeth bellach ar y mater.
- Bod y drws yn agored o safbwynt Llywodraeth Cymru, ac y byddai'n parhau i guro ar y drws hwnnw, nes y byddwn yn cael rhyw fath o ateb yn ôl ganddynt.
- Ei fod yn barod i gefnogi'r cynnig fel yr addaswyd.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod ynglŷn â pha bwerau cynllunio sydd gan y Cyngor, eglurodd y Prif Weithredwr fod y cwestiwn yn un anodd, gan ei fod yn torri ar draws nifer sylweddol o feysydd gwahanol. Fodd bynnag, roedd y Cyngor wedi chwarae rhan bwysig iawn yn y gwaith o adnabod y materion yn y meysydd hyn, ac roedd gallu defnyddio'r rheolau trethi a'r system gynllunio i'w llawn botensial yn rhan o'r atebion a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru. Roedd adroddiad diweddar i'r Cabinet yn galw ar Lywodraeth Cymru i fabwysiadu llu o argymhellion gwahanol, nifer ohonynt yn deillio'n uniongyrchol o waith yr Adran Gynllunio, drwy gyfrwng adroddiad Dr Brooks. Er hynny, roedd y grym yn nwylo

Llywodraeth Cymru, a rôl y Cyngor oedd pwyso arnynt i gyflawni ac i weithredu ar ein rhan ni, a phob ardal o Gymru, cyn gynted â phosib'.

Yn ei sylwadau cloi, diolchodd y Cynghorydd Gruffydd Williams i'r aelodau am y sylwadau a'r gefnogaeth, gan nodi:-

- Ei fod yn dal yn bryderus ynglŷn â'r ffaith na ellid cadarnhau amserlen, ond lle mae ewyllys yn bodoli, bod modd gwyrdroi'r drefn mewn cyfnod byr iawn o amser.
- Ei bod yn hynod bwysig newid y ddeddf gynllunio fel bod rhaid cael hawl cynllunio i drosi tŷ annedd yn dŷ haf neu ail-gartref, a mawr obeithid, cyn diwedd y mis, y byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried hynny.
- Er hynny, nid oeddem lawer haws ag erfyn ar Lywodraeth Cymru i newid y deddfau a'r polisïau, tra roedd ein drws cefn ni yng Nghyngor Gwynedd yn llydan agored, a'i bod yn cymryd 3.5 blynedd i gau'r drws hwnnw.
- Bod raid cyflymu'r broses a chwilio am bob ffordd bosib' i newid y drefn, ac anogwyd y swyddogion i roi ystyriaeth lawn i'r sylwadau, gan fynd law yn llaw â'r aelodau er mwyn gallu newid y polisïau.

**PENDERFYNWYD**
**Bod y Cyngor hwn yn edrych ar frys ar y Cynllun Datblygu Lleol (basiwyd 28.7.2017) gyda golwg i'w adolygu a'i ddiweddaru o ran polisïau cynllunio a'r iaith Gymraeg. Byddai'n ddymunol rhoi blaenoriaeth neilltuol i hyn, heibio yr hyn a nodwyd fel yr amser monitro arferol o fewn y Cynllun ei hun, a chyflwyno cynigion sy'n cyfateb i adroddiad Dr Simon Brooks "Ail Gartrefi – Datblygu Polisïau Newydd yng Nghymru" a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.**

**Yn dilyn y Pandemig a'r ffaith na fydd yna Wylfa B, disgwylir y bydd cyfarfod o'r fath yn cyfarch y newidiadau angenrheidiol sydd eu hangen i gydymffurfio â Deddf Llesiant Cymru, Cymru sydd yn fwy cyfartal a Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.**

**Felly, yn wyneb yr argyfwng tai a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, bod rhaid symud ar frys i adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol; bod y broses yma'n cymryd sylw llawn o farn aelodau a'r gymuned, a bod y Cyngor yn symud ymlaen cyn gynted ag y bo'r modd i baratoi'r Adroddiad Adolygu, a chyflwyno Cytundeb Cyflawni gerbron y Cyngor. Hefyd, bod y Cyngor yn ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru, Mark Drakeford, i bwyso am gael hawl gweithredu ar amserlen fyrrach.**

Nododd y Cadeirydd fod y penderfyniad yn unfrydol, a'i fod yn hynod o ddiolchgar i'r Cynghorydd Gruffydd Williams am ddod â'r mater gerbron. Mynegodd ei obaith y byddai'r Prif Weithredwr, y swyddogion a'r Aelodau Cabinet yn ymateb yn unol â'r dyhead i symud ymlaen cyn gynted â phosib', ac fel mater o ymarfer da, bod yr aelodau yn derbyn diweddariad ar y sefyllfa yn y Cyngor llawn nesaf ar yr 8fed o Orffennaf.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 12.10 y.h.

**CADEIRYDD**

# Y CYNGOR DYDD IAU, 8 GORFFENNAF 2021

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Simon Glyn (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Elwyn Jones (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Craig ab Iago, Menna Baines, Beca Brown, Dylan Bullard, Stephen Churchman, Annwen Daniels, R.Glyn Daniels, Elwyn Edwards, Aled Evans, Peter Antony Garlick, Gareth Wyn Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, R.Medwyn Hughes, Judith Humphreys, Nia Jeffreys, Peredur Jenkins, Aeron M.Jones, Aled Wyn Jones, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Elin Walker Jones, Gareth Tudor Morris Jones, Huw Wyn Jones, Keith Jones, Kevin Morris Jones, Linda A.W.Jones, Sion Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Beth Lawton, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dafydd Owen, Dewi Owen, Edgar Wyn Owen, Gwynfor Owen, W.Roy Owen, Jason Parry, Nigel Pickavance, Rheinallt Puw, Dewi Wyn Roberts, Elfed P.Roberts, Gareth A.Roberts, John Pughe Roberts, Paul Rowlinson, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Catrin Wager, Cemlyn Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gethin Glyn Williams, Gruffydd Williams ac Owain Williams.

**Swyddogion:** Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Dafydd Edwards (Swyddog Cyllid Statudol), Geraint Owen (Pennaeth Gwasanaeth Democratiaeth), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr – Corfforaethol), Vera Jones (Rheolwr Democratiaeth ac Iaith) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Hefyd yn bresennol:** Dr Einir Young (Cadeirydd y Pwyllgor Safonau) (ar gyfer eitem 7)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Y Cynghorwyr:- Anwen Davies, Alan Jones Evans, Dylan Fernley, Louise Hughes, Eric Merfyn Jones, Peter Read, Mair Rowlands a Hefin Underwood.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blynyddol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 13 Mai, 2021 fel rhai cywir.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd y Prif Weithredwr fuddiant personol yn eitem 10 – Swyddog Cofrestru Etholiadol / Swyddog Canlyniadau – oherwydd bod yr adroddiad yn cyfeirio ato, a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

**4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Estynnwyd dymuniadau gorau am wellhad buan i'r Cynghorydd Eric Merfyn Jones yn dilyn llawdriniaeth ddiweddar.

Llongyfarchwyd a chroesawyd y Cynghorydd Gwynfor Owen, yr aelod newydd dros Harlech / Talsarnau, i'r cyfarfod.

Llongyfarchwyd pawb o Wynedd a fu'n cystadlu, a'r rhai a fu'n llwyddiannus, yn Eisteddfod T yr Urdd eleni.

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**6. CWESTIYNAU**

*(Dosbarthwyd atebion ysgrifenedig yr Aelodau Cabinet i'r cwestiynau i'r aelodau ymlaen llaw.)*

**(1) Cwestiwn gan y Cynghorydd Owain Williams**

"Pa ymateb mae Cyngor Gwynedd am ei roi i'r datganiad haerllug gan Lywodraeth San Steffan, a'r Blaid Dorïaid yn arbennig, sef ein gorchymyn i gyhwfan fflag 'Jac yr Undeb' uwchben ac ar ochrau adeiladau'r 'Ymerodraeth', sef y Deyrnas Unedig, yma yng Nghymru?"

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol, y Cynghorydd Nia Jeffreys**

"Nid gorchmynion ydi'r rhain, ond canllawiau ac anogaeth i godi Baner yr Undeb ar adeiladau yng Ngwledydd Prydain. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am hedfan baneri ar ei adeiladau ei hun, ac mae gennym eisoes bolisi ar gyfer hynny. Rwyf wedi anfon ymlaen fanylion y polisi hwnnw at yr aelodau er gwybodaeth."

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Owain Williams**

"Gofynnaf i'r Cyngor hwn gysylltu â Swyddfa Prif Weinidog y Deyrnas Unedig a gofyn am esboniad ac ymddiheuriad am sarhau a bychanu ein cenedl."

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol, y Cynghorydd Nia Jeffreys**

"Rydw innau'n cytuno hefyd bod yr agwedd yn haerllug ac yn sarhaus. Rydym ni'n gwneud popeth o fewn ein gallu rwy'n meddwl o fewn y Cyngor yma. Er enghraifft, yn ddiweddar roedd Gweinidogion Prydain eisiau 'UK Day' ac eisiau i'r plant ganu ryw gân yn yr ysgolion am undeb a chryfder y Deyrnas Unedig. Rydw i'n ddiolchgar iawn i Gymdeithas Bêl-droed Cymru am gael y syniad bod plant yn ysgolion Cymru yn canu'r anthem genedlaethol ar yr un diwrnod, ac roeddwn yn andros o falch o weld ar y newyddion ac ar y cyfryngau cymdeithasol, yn dilyn arweiniad gan y Pennaeth Addysg yng Ngwynedd, bod plant ar draws ysgolion Gwynedd yn gwneud hynny. Felly rwy'n meddwl ein bod ni fel Cyngor yn gwneud popeth o fewn ein gallu i hyrwyddo ein diwylliant a'n hunaniaeth Gymreig."

**(2) Cwestiwn gan y Cynghorydd Alwyn Gruffydd**

"Gan ystyried bod y 'Cynllun Gweithredu Tai' yn labelu Cynllun Cymorth Prynu yn un "hynod boblogaidd" a bod yr arian a fuddsoddir yn y cynllun yn gallu cael ei "ail gylchu", ac o ystyried y gost sydd ynghlwm ag adeiladu tai newydd, ac na fedrwn ni adeiladu ein hunain allan o'r argyfwng cartrefi beth bynnag, onid yw'n anghenraid i'r Cyngor hybu defnydd llawer <u>ehangach</u> o gynlluniau darparu ecwiti fel cynllun 'Prynu Cartref-Cymru' sy'n llawer mwy cost effeithiol ac yn fodd amgenach na dim byd arall i helpu pobl fyw yn eu cynefin?"

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Tai, y Cynghorydd Craig ab Iago**

"Rydym ni ynghanol argyfwng tai go iawn, ac mae gan bawb ohonom straeon neu enghreifftiau yn ein wardiau o annhegwch a phrisiau tai rhy uchel, neu golli adeiladau i bobl o'r tu allan sy'n dymuno gwneud pres hawdd. Mae'r sefyllfa yn mynd yn fwy anobeithiol bob dydd. Roeddem yn clywed yn ddiweddar mai ein prisiau tai ni oedd wedi codi fwyaf ym Mhrydain. Mae'r rhain yn bethau rydym i gyd yn poeni amdanynt, ac mi fuaswn i'n dweud mai dyma'r flaenoriaeth uchaf i ni i gyd o ran y pethau rydym eisiau eu datrys. A dyna'r ydi'r Cynllun Gweithredu Tai - ffordd o ymateb i hynny o'r ochr tai, ac mae'r cynllun wedi ei adeiladu ar gyfer un pwrpas, sef i gartrefu pobl leol. Dyna'r ethos y tu ôl i bob dim yn y cynllun. Mae'n hollol arloesol ac rydym yn arwain ar hyn drwy Brydain oherwydd bod y cynllun yn bodoli yn llwyr ar gyfer hynny. Ond rydym ni wedi adeiladu hyblygrwydd i'r system. Rydym ni'n ceisio treialu cymaint o bethau ag y gallwn, ac rydym yn mynd i wneud y gwaith dros y blynyddoedd. Mae'r cynllun mae'r Cynghorydd Alwyn Gruffydd yn sôn amdano ynddo. Ond wrth gwrs, nid yw ein hymateb ni yn y fan yna yn mynd i ddatrys y broblem nes y byddwn yn taclo'r ochr cynllunio, a dim ond un ffordd sydd o daclo hynny, ac am ryw reswm mae'n glir i mi nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw fwriad i wneud hynny. Mi fyddech yn disgwyl hyn gan Lywodraeth San Steffan, gan nad ydynt yn poeni amdanom ni o gwbl, ond ni fyddech yn disgwyl diffyg ymateb gan Lywodraeth Cymru! Mae'n anodd iawn deall pam fyddai ein Llywodraeth ni eisiau gweld ein cymunedau yn marw, fel sy'n digwydd rŵan, a ddim yn ymateb o gwbl. Ond dyna'r sefyllfa rydym ni ynddi rŵan. Yr oll fedrwn ni wneud ydi parhau i roi pwysau arnynt, a thrafod hyn a chadw hyn yn y newyddion fel rydym yn wneud eisoes. Pe byddent yn rhoi rhagor o bres i ni ar yr ochr tai i fuddsoddi yn hyn, mi fyddem yn gwneud hynny, oherwydd dyna rydym eisiau wneud. Nid oes yna ddiffyg awydd yma i ateb y broblem a gwneud mwy o'r hyn rydym yn ceisio ei wneud, dim ond diffyg adnoddau ar hyn o bryd."

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Alwyn Gruffydd**

"Onid yw'n hen bryd i'r Cyngor yma ddechrau cynnig morgeisi i bobl leol?

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Tai, y Cynghorydd Craig ab Iago**

"Rydym wedi bod yn trafod yn yr Adran ers tua blwyddyn a hanner rŵan. Mae yna fwy y gallwn ni wneud, ac rydym ni'n dysgu hefyd. Nid ydym yn dweud bod pob dim yn y Cynllun Gweithredu Tai. Rydym ni eisiau ychwanegu mwy iddo, ond wrth gwrs, mae yna ddiffyg pres, diffyg adnoddau a diffyg amser. Ond yn bendant, mae'n rhywbeth rydym ni wedi bod yn drafod. Ni does yna ateb syml i hyn. Rydym ni angen gwneud cymaint o bethau gwahanol ag y gallwn, ond yr ateb ydi datrys yr ochr cynllunio."

**(3) Cwestiwn gan y Cynghorydd Beca Brown**

"Hoffwn ddiweddariad ar faterion yn codi o'r argyfwng newid hinsawdd – beth sydd wedi digwydd hyd yma, a beth yw cynlluniau'r Cyngor o hyn allan?"

**Ateb gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

"Hwn yw'r pwnc pwysicaf fedrwn ni drafod y dyddiau hyn, ac oherwydd ei fod yn fater corfforaethol, trawsadrannol, mae'n briodol i mi ateb y cwestiwn.

Efallai y byddwch yn cofio i chi dderbyn adroddiad ar y mater i gyfarfod y Cyngor ar 19 Rhagfyr 2019, lle y bu i ni adrodd fod y Cabinet wedi sefydlu tasglu er mwyn ystyried beth ymhellach sydd angen ei wneud yn y maes. Nodwyd y bwriad i lunio Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd cyngor-gyfan hefyd.

Rhaid cydnabod fod y gwaith wedi colli momentwm o ganlyniad i argyfwng Covid-19. Mae'r gwaith mae adrannau'r Cyngor yn ei wneud yn y meysydd perthnasol (ailgylchu, datgarboneiddio, ymateb i lifogydd, bioamrywiaeth) ayb wedi parhau wrth reswm, ond er bod swyddogion wedi bod yn gweithio ar ddrafft, mae'r amserlen ar gyfer cyhoeddi'r cynllun gweithredu wedi llithro.

Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o bwysigrwydd ail afael yn y maes gwaith yma ar fyrder, ac yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2021, penderfynodd y Cabinet sefydlu Bwrdd Newid Hinsawdd i lywio'r gwaith. Penderfynwyd hefyd i ariannu rheolwr prosiect am gyfnod o 12 mis yn y lle cyntaf er mwyn cyfarch yr elfen sylfaenol o gydlynu'r holl waith. Mae swyddog wedi'i phenodi i'r swydd Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd erbyn hyn ac wedi cychwyn ar y gwaith yr wythnos hon.

Bydd y Bwrdd Newid Hinsawdd yn cwrdd yn yr wythnosau nesaf er mwyn ailgydio yn y gwaith. Y flaenoriaeth fydd i lunio rhaglen waith ar gyfer y chwe mis nesaf, a bydd hyn yn cynnwys cynnal gweithdai efo chi fel aelodau er mwyn ystyried a oes unrhyw fylchau yn ein cynllun gweithredu drafft, a diweddaru'r cynllun er mwyn ei gyhoeddi'n derfynol cyn diwedd 2021."

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Beca Brown**

"A fydd y cyhoedd yn gallu rhoi mewnbwn hefyd?"

**Ateb gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

"Mae hyn yn bwysig ac rydym ni'n ymwybodol fod ein dinasyddion yn awyddus i gymryd rhan yn y drafodaeth yma. Fel rhan o'n strategaeth adfywio, rydym ar fin dechrau cynllun ymgysylltu, neu sgwrs, hefo'n cymunedau yn yr 13 ardal llesiant ar amrywiaeth o bynciau, ac am ofyn iddyn nhw sut maen nhw'n gweld eu hardal hwy yn 2035, a gofyn iddyn nhw beth yw eu blaenoriaethau a beth sydd yn eu poeni. Nid yw'r atebion i gyd gennym ni ac rydym yn awyddus i gael adborth gan drigolion lleol, ac os oes yna syniadau am gynlluniau gweithredol, yna fe ddylem fod yn cyd-gynhyrchu'r cynlluniau hynny. Dyma gam cyntaf y daith honno, sy'n glamp o waith a dweud y gwir, ac mae gennym 10 o swyddogion sy'n mynd i gychwyn ar y gwaith o fynd allan at yr ardaloedd llesiant, ac rydym ni'n rhoi blaenoriaeth iddo. Os bydd angen rhoi rhagor o adnoddau i mewn, byddwn yn gwneud hynny. Rhan gyntaf y broses fydd siarad hefo ein cynghorwyr lleol oherwydd bod ganddynt storfa o wybodaeth werthfawr iawn am eu cymunedau a phwy o fewn eu cymunedau sy'n arwain, neu'n gallu cyfrannu at y drafodaeth. Bydd hynny yn cychwyn yn fuan, ac mae gen i gais yma i'r aelodau i gyd, yn arbennig gyda phwnc fel newid hinsawdd, i ystyried beth sy'n digwydd yn ein hardaloedd, ac rydym yn awyddus i glywed eich syniadau er mwyn i ni allu cydweithio gyda'n cymunedau."

**(4) Cwestiwn gan y Cynghorydd Gruffydd Williams**

"O ystyried bod yna 3 gwaith mwy o dai haf yma yng Ngwynedd nag o unedau gwyliau, ac mai yma yng Ngwynedd mae'r nifer uchaf o dai haf yng Nghymru, onid ydi'r Arweinydd yn gweld fod pwyso ar Lywodraeth Cymru i fynd ar ôl y cynllun 3 pwynt yn strategaeth wan?"

**Ateb gan Yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

"Na. Bydd Aelodau yn ymwybodol fod Adroddiad Dr Simon Brooks, "Ail Gartrefi: Datblygu Polisïau yng Nghymru", wedi ei seilio i raddau helaeth iawn ar waith ymchwil trylwyr gan Adran Gynllunio'r Cyngor hwn. Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'r swyddogion cynllunio sy'n parhau i weithio ac i ymchwilio i mewn i'r meysydd yma.

Roedd adroddiad Dr Simon Brooks yn gwneud 12 argymhelliad a bu i Gabinet y Cyngor benderfynu yn ei gyfarfod ar Fehefin y 15fed i alw ar Lywodraeth Cymru i weithredu ar frys a mabwysiadu pob un o'r 12 argymhelliad hwnnw. Gofynnwyd hefyd i'r Llywodraeth gryfhau'r argymhelliad sydd yn ceisio ymateb i'r sefyllfa bresennol lle mae modd i berchennog ail gartref osgoi talu treth Cyngor.

Galwodd y Cabinet hefyd ar y Llywodraeth i flaenoriaethu'r argymhellion a fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf, gan adnabod y tri a ddylai gael eu gweithredu ar fyrder.

Yn dilyn penderfyniad y Cabinet fe ysgrifennais at y Prif Weinidog yn galw arno i weithredu yn ddi-oed. Mae copi o'r llythyr hwnnw wedi'i gynnwys fel rhan o eitem 14(b) ar raglen y Cyngor hwn.

Rydym ni wedi cael ymateb fore heddiw gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, Julie James AS. Mae'n ymateb hir a thechnegol, sy'n sylfaenol yn dweud bod rhaid dilyn y canllawiau sy'n bodoli a'r ddeddfwriaeth sy'n bodoli, ond fe wnawn rannu'r ymateb hwnnw gyda'r holl aelodau cyn gynted ag y medrwn ni."

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Gruffydd Williams**

"Ydi'r Arweinydd yn cytuno, o ystyried bod y Llywodraeth bellach wedi addo cyfarch 2 o'r 3 phwynt yma y mae ef yn pwyso amdanynt, ei bod yn amlwg bellach bod angen mynd i'r afael â materion ehangach a phwysicach o lawer, sef y broblem tai haf?"

**Ateb gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

"Rydym ni'n siomedig i raddau helaeth nad yw'r Llywodraeth yn cymryd camau pendant, ond rydym yn falch eu bod am gynnal y drafodaeth hefo ni, ac rydw i wedi mynegi eisoes fy awydd i fod yn rhan o'r sgwrs honno. Byddaf yn cyfeirio at y materion hynny rydym ni'n meddwl sy'n mynd i gael yr effaith fwyaf ar dai haf, ail gartrefi, ayb, a gallaf eich sicrhau y byddaf yn rhoi blaenoriaeth i hyn, ac yn gosod ein safbwynt ni fel Cyngor yn glir iawn. Mewn cyfarfod ddoe gyda'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, Rebecca Evans AS, fe godwyd y mater o dai gwledig, ac fe ddywedodd hi fod hyn yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth. Mae hynny'n rhyw fath o gysur i ni, ac mae hi'n mynd i gychwyn ar daith rithiol o gwmpas y cynghorau ddiwedd y mis. Rwy'n credu bod cyfarfod wedi'i drefnu rhyngddi hi a mi ddiwedd y mis yma gyda'r Prif Weithredwr. Felly byddaf yn dal ar bob cyfle i bwyso ac i ofyn i'r Llywodraeth weithredu cyn gynted â phosib', ac rwy'n gobeithio y medraf ddwyn dylanwad arnynt."

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2020/21

Croesawyd Dr Einir Young, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, i'r cyfarfod i gyflwyno adroddiad blynyddol y pwyllgor am 2020/21.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, nodwyd na chyfeiriwyd unrhyw gŵyn o dorri'r Cod Ymddygiad at y Pwyllgor Safonau, a bod hynny'n adlewyrchu'n dda ar y diwylliant ar draws y sir. Deellid y byddai ambell un yn siomedig nad oedd y trothwy ar gyfer ystyried achosion yn is, ond fel yr esboniwyd wrth y Cyngor yn y gorffennol, nid y Pwyllgor Safonau oedd yn penderfynu pa achosion oedd yn cael eu cyfeirio ato. Roedd y Pwyllgor wedi nodi'r pryder a godwyd yn flaenorol gan yr aelodau etholedig ynglŷn â hyn, a phan fyddai Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru yn ail-ymgynnull, byddai hyn yn fater i'w drafod yno.

Diolchodd Dr Einir Young i aelodau'r Pwyllgor, y Swyddog Monitro, yr Uwch Gyfreithiwr Corfforaethol a'r Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth am eu holl gymorth.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau.

Mynegodd aelod ei siomedigaeth o glywed na fu unrhyw ymchwiliad eto eleni, a chwestiynodd a oedd Swyddfa'r Ombwdsmon yn cynnig gwerth am arian. Awgrymodd hefyd y byddai'n fuddiol i gynghorau recordio'u cyfarfodydd, fel bod tystiolaeth ar gael petai problem yn codi unrhyw dro. Mewn ymateb, nodwyd bod hwn yn fater oedd yn codi'n flynyddol yn y Cyngor a bod y prawf budd cyhoeddus dan ystyriaeth ar hyn o bryd fel rhan o adolygiad o'r Cod Ymddygiad. Eglurwyd bod y prawf yn caniatáu i'r Ombwdsmon briodoli ei adnoddau i ymchwilio i faterion mewn meysydd, megis iechyd. Fodd bynnag, roedd hynny'n codi cwestiwn ynglŷn ag addasrwydd y model ar gyfer cynghorau cymuned, oherwydd, os oedd y rhiniog mor uchel, oni ddylai bod yna fodel gwahanol sy'n ymateb i ofynion cynghorau cymuned, yn hytrach na'u bod ar linyn mesur cyngor sir neu awdurdod iechyd? Roedd lle, gan hynny, i gael y drafodaeth yma wrth i'r adolygiad fynd rhagddo.

Diolchwyd i'r Dr Einir Young am ei chyflwyniad.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 8. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD 2020/21

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo a mabwysiadu Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 20120/21 fel darlun clir, cytbwys a chywir o berfformiad y Cyngor yn ystod 2020/21.

Diolchodd i bob aelod o staff oedd wedi cyfrannu at y gwaith, ac yn arbennig i'r Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor a'r Swyddog Cefnogi Busnes am gasglu'r holl wybodaeth, ac am baratoi'r adroddiad mewn ffordd mor ddealladwy a diddorol.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau. Codwyd y materion a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Gan gyfeirio at dudalen 46 o'r rhaglen, sy'n nodi y bydd Cais Twf Gogledd Cymru yn arwain at £1.1bn o fuddsoddiad yn rhanbarth y Gogledd dros y deg mlynedd nesaf, gan greu hyd at 4,000 o swyddi ledled y Gogledd, holwyd faint o'r buddsoddiad hwn fyddai'n debygol o ddod i Wynedd. Mewn ymateb, nodwyd na chredid bod yna dargedau penodol ar gyfer Gwynedd, ond y bwriedid cadw golwg ar y sefyllfa, gan adrodd yn ôl i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar yr hyn sy'n digwydd. Eglurwyd bod nifer o brosiectau yn mynd ar draws y rhanbarth, megis y prosiectau digidol sy'n ymestyn a gwella cysylltedd digidol ar draws yr holl ranbarth. Roedd niferoedd swyddi wedi'u pennu ar gyfer prosiectau penodol ym Mhrifysgol Bangor a Glynllifon, a gellid darparu mwy o fanylion i'r aelodau am rheini i'r dyfodol.
- Yn wyneb y ffaith bod Wylfa B yn annhebygol iawn o ddigwydd bellach, gofynnwyd o ble fyddai'r miloedd o swyddi newydd a addawyd yn dod, a phwy fyddai'n dod i'r 8,000 o dai ychwanegol fyddai'n weddill yng Ngwynedd a Môn. Mewn ymateb, eglurwyd nad oedd Wylfa B yn rhan o brosiectau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, nac wedi'i gynnwys yn eu ffigurau swyddi. Byddai'r newidiadau o ganlyniad i beth bynnag fyddai'n digwydd i safle Wylfa B yn dod i mewn i'r adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol, ynghyd ag unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol i ail-edrych arnynt, megis niferoedd tai a niferoedd swyddi.
- Gan gyfeirio at dudalen 49 o'r rhaglen, sy'n cyfeirio at sicrhau arian Ewropeaidd i wireddu cynlluniau fel rhan o'r prosiect Creu Swyddi Gwerth Uchel, holwyd beth fyddai effaith Brexit ar y buddsoddiadau presennol, a buddsoddiadau i'r dyfodol. Mewn ymateb, nodwyd bod nifer o brosiectau yn eu lle yn barod sy'n manteisio ar gronfeydd Ewrop, a chredid y byddai'r rheini'n parhau tan 2023. Fodd bynnag, byddai'r arian i'r dyfodol yn llawer llai na'r £350m yr wythnos a addawyd gan Lywodraeth Prydain, ac er

bod y Gronfa Ffyniant Gyffredin i fod i wneud iawn am hynny, roedd yn rhaid i'r holl gynghorau sir ar draws Prydain gystadlu am y symiau pitw oedd ar gael.

- Gan gyfeirio at dudalennau 122-123 o'r rhaglen, mynegwyd anfodlonrwydd bod ceisiadau cynllunio wedi cymryd 89 diwrnod ar gyfartaledd i gyrraedd penderfyniad yn ystod 2020/21, a bod un cais wedi cymryd blwyddyn gyfan. Ychwanegwyd, yn sgil codi'r mater gyda'r Adran, y daeth i'r amlwg bod y swyddog oedd yn delio â'r cais yn sâl, a holwyd i ba raddau roedd rheolwyr yn goruchwylio swyddogion sy'n gweithio o adref o safbwynt eu lles a'u hiechyd meddwl. Mewn ymateb, eglurwyd na ellid rhoi sylw ar achos unigol, ond gofynnwyd i'r aelodau gyfeirio unrhyw bryderon o'r fath i sylw'r Prif Weithredwr. Ychwanegwyd ei bod yn bwysig cydnabod bod y staff wedi bod trwy gyfnod o newid anferthol yn ystod y deunaw mis diwethaf, ac wedi gallu ymdopi'n wych gyda hynny i raddau helaeth iawn. Ni chredid bod y staff angen goruchwyliaeth yn y mwyafrif o achosion, gan eu bod yn bobl ymdrechgar a chydwybodol sy'n gwneud eu gorau bob amser. Fodd bynnag, roeddent angen cefnogaeth, yn arbennig wrth weithio'n bell o adref, ac ar wahân i'w timau o ddydd i ddydd, ac roedd trefniadau a chefnogaeth mewn lle i sicrhau bod hynny'n digwydd ym mhob rhan o'r Cyngor.
- Croesawyd y cyfeiriad at sefydlu Cynllun Awtistiaeth yng Ngwynedd yn adroddiad yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, ond nodwyd nad oedd son am y cynllun yn adroddiad yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Mewn ymateb, eglurwyd bod y cynllun yn ymddangos yn adroddiad yr Adran Plant a Theuluoedd gan mai'r Adran honno sy'n arwain ar y gwaith ac yn herio perfformiad y Grŵp Prosiect traws-adrannol (sy'n cynnwys swyddogion o'r Adran Plant a Theuluoedd a'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, ynghyd â phartneriaid megis Cyngor Ynys Môn a'r Bwrdd Iechyd). Eglurwyd bod y cynllun yn gorwedd o fewn yr Adran Plant a Theuluoedd oherwydd yr angen i'r gefnogaeth gychwyn o blentyndod yr unigolyn, ond roedd yn gynllun gydol oes wrth i'r unigolyn drosglwyddo o'r Gwasanaeth Plant i'r Gwasanaeth Oedolion. Nodwyd ymhellach, petai aelodau yn dymuno gwybod mwy am y gweithgaredd a'r prosiect, a chael cyfle i rannu barn a phrofiadau personol mewn ambell achos, y gellid trefnu iddynt gyfarfod y ddau Aelod Cabinet a'r swyddogion perthnasol.
- Holwyd a oedd Gwynedd yn barod am y don o broblemau iechyd meddwl fydd yn dod yn sgil Cofid. Mewn ymateb, nodwyd bod trafodaethau ar y gweill rhwng y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd er mwyn ceisio rhagweld beth fydd maint y galw i'r dyfodol. Ychwanegwyd y byddai'r Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant yn fodlon iawn trefnu cyfarfod rhwng yr aelodau a'r swyddogion perthnasol i gael gwell dealltwriaeth. Nodwyd ymhellach bod y cynnydd mewn achosion yn amlygu ei hun drwy wasanaethau'r Cyngor gyda chwsmeriaid yn troi at y Cyngor o bob cyfeiriad. Er enghraifft, yn y maes tai, gwelwyd cynnydd difrifol dros y deunaw mis diwethaf yn y niferoedd o bobl sy'n colli tenantiaethau oherwydd problemau iechyd meddwl, ond llwyddodd y Cyngor i gyllido aelod newydd o staff yn y Tîm Iechyd Meddwl yn y Gwasanaeth Iechyd fyddai ar gael yn benodol i helpu tenantiaid tai cymdeithasol i warchod eu tenantiaethau.
- Gan gyfeirio at dudalen 61 o'r rhaglen, llongyfarchwyd yr Adran Addysg ar gwblhau'r gwaith o sefydlu adeilad newydd ar gyfer Ysgol y Garnedd ym Mangor.
- Gan gyfeirio at dudalen 103 o'r rhaglen, holwyd sut y gellid bod yn sicr mai llwyddiant strategaeth y Cyngor, yn hytrach na phlant yn cael eu colli o dan y radar oherwydd Covid, oedd yn gyfrifol am y peth gostyngiad yn nifer y plant mewn gofal yn 2020/21. Mewn ymateb, nodwyd y bu'r Cyngor dan bwysau gan Lywodraeth Cymru i osod targedau ar y niferoedd plant mewn gofal, ond y gwrthodwyd gwneud hynny gan na chredid bod targed yn addas, a bod y Cyngor yn darparu yn ôl yr angen, yn hytrach nag er mwyn cyrraedd unrhyw dargedau. Canmolwyd y cydweithio rhwng yr Adran Addysg a'r Adran Plant a Theuluoedd, a diolchwyd yn arbennig i staff yr ysgolion am adnabod a chyfeirio plant allai fod wedi mynd o dan y radar oherwydd Covid ymlaen i'r Gwasanaeth Plant. Nodwyd ymhellach bod trefniadau'r Adran yn gadarn iawn o ran asesu'r data yng nghyswllt y cyfeiriadau, e.e. ydi'r cyfeiriadau yn debyg i'r flwyddyn ddiwethaf, ac i flynyddoedd tebyg? Hefyd, roedd llawer o waith triongli yn digwydd er

mwyn gweld beth mae'r data yn ddweud wrthym. Er hynny, roedd yn anodd gwybod i sicrwydd bod popeth yn dod i mewn fel y dylai oherwydd y bu'r cyfnod yn un na welwyd ei debyg o'r blaen. Nodwyd ymhellach y cynhaliwyd sawl ymgyrch i sicrhau bod pawb yn y gymdeithas, y staff ac aelodau yn cadw llygaid agored, ac yn cyfeirio unrhyw fater o bryder i'r Tîm Cyfeirio, a thrwy gydweithio gyda'r heddlu, a phartneriaid allweddol eraill, hyderid bod y Cyngor yn gwneud popeth y gallai i sicrhau bod y materion diogelu hyn yn dod i sylw'r Adran. Hefyd, fel rhan o'r strategaeth cadw teuluoedd hefo'i gilydd, roedd cyfraddau uchel iawn o blant yn gallu aros gyda'u rheini, neu deulu estynedig, yn hytrach na mynd i ofal.

- Gan gyfeirio at dudalen 124 o'r rhaglen, holwyd beth oedd y sefyllfa ddiweddaraf o ran ail-gychwyn y gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus a dorrwyd yn ystod y cyfnod Covid, a chynllun Llywodraeth Cymru o ran gwella trafnidiaeth gyhoeddus. Mewn ymateb, nodwyd y bu i'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, Lee Waters, AS ddod â chynllun trafnidiaeth uchelgeisiol iawn gerbron, oedd yn diystyru anghenion yr ardaloedd gwledig. Yn dilyn gwneud sylw ynglŷn â hyn, cyflwynodd y Dirprwy Weinidog gynllun gwledig rhyfeddol, er nad oedd yn glir sut y byddai'n cael ei gyflawni. Nid oedd y sefyllfa o ran y gwasanaeth presennol yn eglur, ond pryderid bod y Llywodraeth a'i bryd ar ganoli'r gwasanaeth bysiau gyda Thrafnidiaeth Cymru, ac nid oedd hynny'n codi llawer o obaith am wella'r gwasanaeth yng Ngwynedd. Nodwyd ymhellach bod yr Adran Amgylchedd wedi gwneud darn o waith cyn y pandemig yn edrych ar y ddarpariaeth, megis pryd fyddai'n bosib' defnyddio tacsi neu fws mini, yn hytrach na bws sy'n dal 50 o bobl. Roedd y pandemig wedi taro'r Adran yn galed iawn a bu'r Llywodraeth yn sybsideiddio'r ochr yma o'r gwaith yn fawr iawn yn ystod y pandemig. Roedd y Llywodraeth, drwy Drafnidiaeth Cymru, wedi bod yn ceisio gwthio ymlaen gyda chynlluniau newydd, ond nid oedd y darlun cyflawn o ran yr hyn oedd ganddynt dan sylw yn eglur hyd yma. Gofynnwyd i unrhyw aelodau oedd yn cael trafferthion yn lleol ddod â thystiolaeth o hynny i sylw'r Adran.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad fel adlewyrchiad cywir, cytbwys a chlir o berfformiad y Cyngor yn ystod 2020/21, a'i fabwysiadu.**

## 9. DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol adroddiad yn gwahodd y Cyngor i gymeradwyo trefniadau ar gyfer cynnal cyfarfodydd y Cyngor er cyfarch gofynion newydd yn Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau. Codwyd y materion a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Nodwyd ei bod yn bwysig sicrhau bod modd i unrhyw un sydd â diddordeb arbennig mewn mater fynychu cyfarfod rhithiol a rhoi eu barn, yn hytrach na gallu gwylio'r gwe-ddarllediad yn unig. Hefyd, mynegwyd dymuniad i symud yn ôl i gyfarfodydd wyneb yn wyneb cyn gynted â phosib' ar y sail nad yw cyfarfodydd rhithiol yn hwylus ar gyfer gwneud penderfyniadau pwysig. Mewn ymateb, eglurwyd bod y dull o gyfarfod yn anorfod yn mynd i newid oherwydd y ddeddf yma, a bod presenoldeb o bell yn mynd i fod yn rhan o'r cyfarfodydd, gan fod gan yr aelodau etholedig hawl statudol i hynny. Nid oedd y trefniadau caniatáu i'r cyhoedd gyfranogi at bwyllgor yn rhan o'r mater dan ystyriaeth ar hyn o bryd, ac roedd y trefniadau hynny yn aros yr un fath, ond yn rhithiol. Roedd y gwaith o symud o'r drefn interim yn golygu adnabod y patrwm sy'n gweithio orau ar draws yr ystod o gyfarfodydd, ond pwysleisiwyd bod y gyfundrefn electronig a'r hawliau statudol sy'n mynd law yn llaw â hynny yn golygu bod y dirwedd yma'n mynd i newid yn anorfod ac yn barhaol y naill ffordd neu'r llall.
- Gan y byddai cyfarfodydd hybrid yn statudol i'r dyfodol, holwyd a fyddai Llywodraeth Cymru yn cyfrannu'n ariannol tuag at y buddsoddiad sylweddol mewn Technoleg

Gwybodaeth fydd ei angen ar gyfer gwireddu hynny. Mewn ymateb, nodwyd y gellid holi'r Pennaeth Cyllid a dod yn ôl at yr aelod gyda'r wybodaeth gyllidol. Nodwyd hefyd y bwriedid cychwyn treialu'r offer hybrid yn ystod mis Awst er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn dechnegol rhwydd i'w defnyddio ac yn ateb gofynion dwyieithrwydd, materion pleidleisio, gwe- ddarlledu, ayb.

- Nodwyd ei bod yn bwysig parhau i gynnal cyfarfodydd yn rhithiol ar ôl i'r cyfyngiadau lacio, gan fod y drefn yma o gyfarfod yn arbed amser, costau teithio ac allyriadau cerbydau, a hefyd yn caniatáu i aelodau fod yn bresennol o unrhyw leoliad.
- I'r gwrthwyneb, nodwyd ei bod yn fwy anodd i'r aelodau roi eu pwyntiau drosodd yn gryf mewn cyfarfodydd rhithiol, ac anogwyd pawb i gefnogi mynd yn ôl i'r Siambr cyn gynted â phosib'.
- Awgrymwyd y dylid parhau i gynnal cyfarfodydd yn rhithiol, ond nid drwy gydol yr amser, ac y byddai'n dda i'r aelodau gyfarfod wyneb yn wyneb o bryd i'w gilydd.

**PENDERFYNWYD**

**(1) Mabwysiadu'r trefniadau a'r protocol ar gyfer parhau i gyfarfod yn rhithiol hyd eu hadolygir yn unol â'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Cyngor.**

**(2) Cymeradwyo'r newidiadau i'r Cyfansoddiad yn Atodiad B i'r adroddiad i'r Cyngor.**

## 10. SWYDDOG COFRESTRU ETHOLIADOL / SWYDDOG CANLYNIADAU

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad yn gwahodd y Cyngor i benodi Swyddog Cofrestru Etholiadol / Swyddog Canlyniadau, yn sgil ymddeoliad deilydd presennol y swyddi hyn.

**PENDERFYNWYD**

**(1) Penodi'r Prif Weithredwr i fod yn Swyddog Cofrestru Etholiadol ar gyfer pob etholaeth a rhannau o etholaeth o fewn y Sir, yn unol ag Adran 8(2A) Deddf Cynrychioli'r Bobl 1983.**

**(2) Penodi'r Prif Weithredwr i fod yn Swyddog Canlyniadau ar gyfer ethol cynghorwyr i'r Cyngor ac ethol cynghorwyr cymuned o fewn y Sir, yn unol ag Adran 35(1A) Deddf Cynrychioli'r Bobl 1983.**

## 11. ADRODDIAD BLYNYDDOL CRAFFU 2020/21

Cyflwynodd Cadeirydd y Fforwm Craffu, y Cynghorydd Beth Lawton, adroddiad blynyddol craffu ar gyfer 2020/21. Diolchodd i'r cadeiryddion ac is-gadeiryddion craffu a'r holl aelodau craffu am eu gwaith yn ystod y flwyddyn. Diolchodd hefyd i'r penaethiaid, ac i swyddogion y Gwasanaeth Democratiaeth am gefnogi'r aelodau a llunio'r adroddiad.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau.

Nodwyd nad oedd cyfeiriad yn yr adroddiad at yr Ymchwiliad Craffu Cynllunio a'r Iaith Gymraeg, a gofynnwyd am gynnwys y wybodaeth ar wefan y Cyngor, gan nad oedd yn ymddangos ei bod yno ar hyn o bryd.

Ar ran yr Aelodau Cabinet, diolchodd yr Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc i aelodau'r pwyllgorau craffu, gan ddatgan pa mor bwysig yw eu rôl yn y broses o gynnal y gwasanaethau o ddydd i ddydd. Diolchodd hefyd i'r aelodau hynny sy'n rhan o'r cyfarfodydd herio perfformiad am eu cefnogaeth a'u mewnbwn.

Diolchwyd i Gadeirydd y Fforwm Craffu am ei holl waith a'i harweiniad, ac am gyflwyno'r adroddiad ar ran y cadeiryddion craffu.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 12. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth adroddiad yn adolygu cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor yn dilyn:-

- Is-etholiad yn ward Harlech / Talsarnau yn sgil ymddiswyddiad y cyn-gynghorydd Freya Bentham, Grŵp Annibynnol;
- Ethol y Cynghorydd Gwynfor Owen yn ward Harlech / Talsarnau, Grŵp Plaid Cymru.

Nodwyd bod clip fideo byr i'w weld ar y fewnrwyd aelodau yn egluro sut mae'r fformiwla dyrannu seddau ar bwyllgorau yn gweithio.

**PENDERFYNWYD**

**(1) Mabwysiadu'r dyraniad seddau a nodir yn Atodiad A i'r cofnodion hyn.**

**(2) Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth wneud penodiadau i'r pwyllgorau ar sail cydbwysedd gwleidyddol, ac yn unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol.**

## 13. RHYBUDDION O GYNNIG

Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Gruffydd Williams o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

"Bod Cyngor Gwynedd yn cefnogi Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Wahardd Arfau Niwclear."

Nododd cynigydd y cynnig fod sawl grŵp a mudiad gwrth-arfau niwclear wedi cyflwyno llythyrau o gefnogaeth i'r cynnig. Gosododd gyd-destun i'w cynnig, gan danlinellu bod y Deyrnas Gyfunol yn un o'r ychydig wledydd oedd heb arwyddo Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Wahardd Arfau Niwclear a ddaeth i rym ar 22 Ionawr, 2021. Ychwanegodd y gallai Cyngor Gwynedd ddangos arweiniad dyngarol drwy gefnogi'r cynnig er mwyn i Lywodraeth San Steffan a gwleidyddion o bleidiau eraill ddeall bod yna wrthwynebiad egwyddorol a moesol i arfau niwclear yng Nghymru.

Mynegwyd cefnogaeth gref i'r cynnig gan aelodau ar y sail:-

- Gan na fu i Lywodraeth Prydain gymryd rhan yn y trafodaethau, na chawsant gyfle i siapio'r Cytundeb, a'u bod yn gibddall iddo.
- Bod y cymalau yn Erthygl 1 o'r Cytundeb, sy'n ymwneud â rheolaeth a gwaharddiad, yn gwrthbrofi dadl Llywodraeth Prydain na fyddai arwyddo'r Cytundeb yn dod â ni yn agosach at fyd heb arfau niwclear. Petai pob gwlad yn arwyddo, ac yn ymlynu at yr egwyddorion hyn, byddem yn byw mewn byd sy'n rhydd o arfau niwclear.

Yn wyneb safbwynt Llywodraeth Prydain ar y mater, cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i ychwanegu cynffon at y cynnig, fel a ganlyn:-

*"... a hefyd yn galw ar Lywodraeth Prydain i ymrwymo i Gytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Wahardd Arfau Niwclear."*

Cytunodd cynigydd y cynnig gwreiddiol i ddiwygio'r cynnig ar y llinellau yma gyda chydsyniad y Cyngor.

Yn ystod y drafodaeth ar y gwelliant, nodwyd ein bod yn byw mewn byd ansefydlog, gydag anghydraddoldeb byd eang yn tyfu. Roedd Cofid wedi ein taro yn galed, a newid hinsawdd eisoes yn arwain at ddisodli pobl a bygwth rhwydweithiau bwyd. Yn y byd ansefydlog sydd

ohoni, roedd angen i Lywodraethau barhau fwy nag erioed i weithredu tuag at adeiladu heddwch, yn hytrach na chefnogi a buddsoddi mewn arfau niwclear.

Pleidleisiwyd ar y gwelliant ac fe gariodd.

Gan i'r gwelliant gael ei dderbyn, eglurodd y Swyddog Monitro fod y cynnig gwreiddiol wedi'i addasu, a bod angen pleidlais bellach gyda geiriad y gwelliant yn hytrach na'r geiriad gwreiddiol. Pleidleisiodd mwyafrif o blaid y cynnig.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-**

**Bod Cyngor Gwynedd yn cefnogi Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Wahardd Arfau Niwclear, a hefyd yn galw ar Lywodraeth Prydain i ymrwymo i Gytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Wahardd Arfau Niwclear.**

## 14. YMATEBION I RYBUDDION O GYNNIG BLAENOROL

Cyflwynwyd er gwybodaeth:-

(a) Llythyrau gan Weinidog Cyflenwi Lles Llywodraeth y DG a Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth Cymru mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Elin Walker-Jones i gyfarfod 4 Mawrth, 2021 ynglŷn ag Incwm Sylfaenol Cyffredinol.

(b) Llythyrau at Brif Weinidog Cymru (i) mewn ymateb i adroddiad Dr Simon Brooks "Ail-gartrefi – Datblygiad Polisïau Newydd yng Nghymru", a (ii) yn galw am adolygiad cynharach o'r Cynllun Datblygu Lleol yn dilyn Cyfarfod Arbennig y Cyngor ar 28 Mehefin, 2021.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 3.10 y.h.

**CADEIRYDD**

**ATODIAD A – DYRANIAD SEDDI AR BWYLLGORAU**

| A | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Y Blaid Genedlaethol | Annibynnol Unedig Gwynedd | Aelod Unigol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi | 10 | 5 | 1 | 1 | 1 | 0 | 18 |
| Pwyllgor Craffu Cymunedau | 10 | 5 | 2 | | 0 | 1 | 18 |
| Pwyllgor Craffu Gofal | 10 | 5 | 1 | 1 | 0 | 1 | 18 |
| Archwilio a Llywodraethu | 10 | 5 | 1 | | 1 | 1 | 18 |

| B | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Y Blaid Genedlaethol | Annibynnol Unedig Gwynedd | Aelod Unigol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Democrataidd | 8 | 4 | 1 | 1 | 1 | | 15 |
| Cynllunio | 8 | 4 | 1 | | 1 | 1 | 15 |
| Trwyddedu Canolog | 8 | 4 | 1 | | 0 | 2 | 15 |
| Iaith | 8 | 4 (i lawr o 5) | 2 (i fyny o 1) | | 1 | | 15 |
| Penodi Prif Swyddogion | 8 | 4 | 1 | 1 | 0 | 1 | 15 |
| Apelau Cyflogaeth | 4 | 2 | 1 | | 0 | | 7 |
| **Nifer y seddau** | **84** | **43** | **11** | **4** | **5** | **7** | **154** |

| C | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Y Blaid Genedlaethol | Annibynnol Unedig Gwynedd | Aelod Unigol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pensiynau | 4 | 2 | 0 | | 0 | 1 | 7 |
| Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol | 6 | 3 | 1 | | 1 | | 11 |
| CYSAG | 4 | 1 | 0 | 1 | 0 | 1 | 7 |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd | 4 | 2 | 1 | | 0 | | 7 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y seddau** | **102** | **50** | **14** | **5** | **6** | **9** | **186** |

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 7fed Hydref, 2021 |
| **Teitl yr Eitem:** | Datganiad Cyngor Gwynedd ynghylch Amrywiaeth |
| **Pwrpas:** | Cyflwyno Datganiad Amrywiaeth Cyngor Gwynedd i'w fabwysiadu gan y Cyngor Llawn ynghyd â threfnu creu rhaglen waith i'w wireddu. |
| **Aelod Cabinet:** | Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Arweinydd y Cyngor |
| **Swyddog (ion) Cyswllt:** | Geraint Owen, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth |

## Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Argymhellir bod y Cyngor Llawn yn mabwysiadu'r Datganiad Amrywiaeth isod ac yn gofyn i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ddatblygu rhaglen waith i gefnogi'r datganiad.

### 2. CEFNDIR A RHESYMEG

**Rhagair**

1. Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn gefnogol i hybu amrywiaeth mewn democratiaeth, gyda nifer o gamau wedi eu cymryd dros y blynyddoedd i geisio annog mwy o bobl o amrywiol gefndiroedd i sefyll mewn etholiadau.

2. Gydag etholiadau Llywodraeth Leol Cymru ar y gweill ym mis Mai 2022, mae'n amserol datgan yn gyhoeddus fod Cyngor Gwynedd yn hybu a hyrwyddo amrywiaeth mewn democratiaeth. Rydym yn awyddus i sicrhau fod aelodau etholedig Cyngor Gwynedd yn gynrychiolaeth deg a synhwyrol o'r gymdeithas yng Ngwynedd ac felly'n annog unigolion o bob cefndir i sefyll yn yr etholiadau.

3. Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth wedi arwain ar y maes gyda pharatoadau etholiad 2017, gyda gwaith pellach i'w wneud ar gyfer paratoadau etholiad 2022. Yn ogystal, roedd prosiect penodol wedi ei gynnwys yng Nghynllun

Cydraddoldeb y Cyngor 2016-20, gyda'r gwaith bellach yn parhau yn ein gwaith dyddiol.

4. Ymhellach, mae Arweinyddion gwleidyddol pob awdurdod yng Nghymru wedi bod yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i adnabod camau posib i hyrwyddo amrywiaeth ymhellach – rhai ar lefel genedlaethol, eraill ar lefel wleidyddol ac eraill ar lefel lleol. Bydd gwaith yn symud ymlaen ar lefel genedlaethol ar y cyd gyda'r Arweinyddion gwleidyddol.

5. Mae'r Cyngor yn awyddus i fabwysiadu Datganiad Amrywiaeth er mwyn dangos yn glir a chyhoeddus ein hymrwymiad ni yng Ngwynedd i amrywiaeth mewn democratiaeth.

**A) Datganiad Amrywiaeth**

6. Noder y datganiad isod:

   *Mae'r Cyngor hwn yn ymrwymo i fod yn Gyngor Amrywiol. Trwy hynny, rydym yn awyddus i fod yn adlewyrchu'r gymdeithas rydym yn byw ynddi gan, yn y lle cyntaf, geisio cynyddu'r niferoedd o ferched, pobl ifanc, pobl anabl a lleiafrif ethnig sy'n sefyll etholiad i fod yn Gynghorydd Gwynedd.*

   *Rydym yn ymrwymo i*

- *Ddarparu ymrwymiad clir a chyhoeddus i wella amrywiaeth mewn democratiaeth*
- *Ddangos diwylliant agored a chroesawgar i bawb, a hyrwyddo'r safonau ymddygiad uchaf*
- *Hybu gweithrediadau fel Cyngor Amrywiol cyn etholiadau lleol 2022.*
- *Weithio ar y safonau a nodir yn Siarter Cymru ar gyfer Cymorth a Datblygu i Aelodau.*
- *Ddangos ymrwymiad i ddyletswydd gofal dros Gynghorwyr*
- *Ystyried sut i ddarparu hyblygrwydd ym musnes y cyngor drwy adolygu ein trefniadau ymarferol*
- *Barhau i annog fod yr holl aelodau yn derbyn y lwfansau a'r cyflogau y mae ganddynt hawl eu derbyn, ac yn benodol unrhyw ad-daliadau am gostau gofal, fel bod yr holl aelodau yn derbyn cydnabyddiaeth deg am eu gwaith ac nad yw rôl yr aelodau yn gyfyngedig i'r rhai all ei fforddio.*
- *Weithio tuag at sicrhau bod cynghorwyr o grwpiau a dangynrychiolir yn cael eu cynrychioli pryd bynnag fo'n bosibl mewn rolau proffil uchel a dylanwad uchel.*

**B) Rhaglen waith**

7. Yn amlwg mae'n ofynnol sicrhau fod y Cyngor yn cymryd camau penodol i geisio hybu amrywiaeth mewn democratiaeth a gwireddu'r datganiad uchod. Fel y nodwyd uchod, mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth wedi arwain ar y maes ers rhai blynyddoedd, ac mae'n synhwyrol felly gofyn iddynt arwain ar ddatblygu rhaglen waith lawn ar gyfer gwireddu'r datganiad.

8. Mae gwaith eisoes yn digwydd sy’n symud yr agenda ymlaen, ac yn cynnwys cydweithio agos gyda’r prosiect etholfraint 16 ac 17 oed. Yn ogystal mae trefniadau yn cael eu datblygu ar gyfer wythnos democratiaeth Gwynedd a gynhelir wythnos y 18fed o Hydref ymlaen. Bydd cyfres o negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol i geisio ennyn diddordeb unigolion i sefyll fel Cynghorydd. Pen llanw yr wythnos fydd cyfle i ddarpar ymgeiswyr fynychu sesiwn holi ac ateb rhithiol ar y 26ain o Hydref.

9. Yn amlwg mae rôl benodol gan y grwpiau gwleidyddol i hybu amrywiaeth mewn democratiaeth, a chafwyd trafodaeth am hyn yng nghyfarfod diwethaf y Grŵp Busnes.

10. Argymhellir felly fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yn rhoi sylw pellach i’r rhaglen waith yn ei gyfarfod ar 16 Tachwedd 2021 gan gyflwyno’r rhaglen waith llawn i’r Cyngor llawn ar yr 2il o Ragfyr, 2021.

## 3. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

### 3.1 SYLWADAU’R SWYDDOGION STATUDOL:

**Swyddog Monitro:**

Rwy’n cefnogi mabwysiadu’r Datganiad sydd yn gosod ystod egwyddorion ac amcanion er hyrwyddo a chefnogi cyfranogiad yn ein cyrff democrataidd. Bydd creu rhaglen waith gysylltiedig yn cefnogi gwireddu yr amcanion yma.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Dim i’w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol

# CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 7fed o Hydref, 2021 |
| **Teitl yr Eitem:** | Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 – diweddariad cyfarfodydd hybrid |
| **Pwrpas:** | Cyflwyno diweddariad i'r Cyngor llawn yn dilyn cymeradwyo trefniadau ar gyfer cynnal cyfarfodydd y Cyngor er cyfarch gofynion newydd yn Rhan 3 o'r Ddeddf yng nghyfarfod 08/07/2021 |
| **Aelod Cabinet:** | Cynghorydd Nia Jeffreys |
| **Swyddog (ion) Cyswllt:** | Geraint Owen, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth |

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Argymhellir bod y Cyngor Llawn yn derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.

### 2. CEFNDIR A RHESYMEG

**Rhagair**

1. Yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar yr 8fed o Orffennaf, 2021 penderfynodd y Cyngor fabwysiadu trefniadau interim ar gyfer parhau i gynnal cyfarfodydd rhithiol yn unig yn ystod y cyfnod o fis Mai 2021 ymlaen hyd oni nodir yn wahanol. Bydd Aelodau hefyd yn cofio fod protocol a newidiadau perthnasol i'r cyfansoddiad hefyd wedi eu mabwysiadu.

2. Roedd adroddiad mis Gorffennaf yn nodi fod gwaith yn mynd yn ei flaen i ddatblygu trefniadau ar gyfer cynnal cyfarfodydd hybrid gan hefyd sicrhau diogelwch Cynghorwyr a swyddogion pan fydd yn amserol dychwelyd i'r siambrau.

3. Addawyd cyflwyno diweddariad o'r gwaith i gyfarfod y Cyngor llawn ar 7fed o Hydref 2021.

**Cefnogaeth gan y Cabinet**

4. Ers i'r Cyngor llawn benderfynu ar y trefniadau dros dro, derbyniwyd cefnogaeth bellach gan y Cabinet er mwyn symud yr agenda cyfarfodydd hybrid yn ei blaen. Yng nghyfarfod y Cabinet ar y 27ain o Orffennaf 2021 cytunwyd i ddefnyddio £130,000 o'r

‘Gronfa Trefniadau Adfer yn sgil Covid19’ i ariannu cynlluniau i alluogi cyfarfodydd hybrid a mynediad o bell i gyfarfodydd y Cyngor yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

**Diweddariad**

5. Fel yr adroddwyd ym mis Gorffennaf mae newidiadau i’r ddeddf yn golygu fod rhaid mabwysiadu (a chyhoeddi) trefniadau sydd yn caniatáu i bersonau nad ydynt yn yr un lle i fynychu cyfarfod. Mewn geiriau eraill, rhaid galluogi mynediad o bell i gyfarfodydd. Gall cyfarfodydd o’r fath fod yn llwyr drwy drefniadau rhithiol (sef ein trefniadau presennol) neu yn gyfuniad o gyfarfod sydd yn cael ei gynnal mewn lleoliad gyda rhai yn mynychu o bell. Nodwyd fod y term “hybrid” yn cael ei ddefnyddio ar gyfer disgrifio cyfarfodydd sydd yn cael eu cynnal yn y modd yma.

6. Mae gwaith prosiect penodol wedi ei sefydlu i symud y gwaith yn ei flaen. Y cam cyntaf amlwg yw datblygu’r dechnoleg angenrheidiol ar gyfer cynnig cyfarfodydd hybrid. Mae’r gwaith yma wedi dechrau yn Siambr Dafydd Orwig a Siambr Hywel Dda yn ystod mis Medi.

7. Yn dilyn o’r gwaith ymarferol o uwchraddio’r dechnoleg a’r siambrau bydd swyddogion perthnasol yn derbyn hyfforddiant ar gyfer gweithredu'r ochor dechnegol o gynnal cyfarfod hybrid, law yn llaw â pharhau i redeg rhaglen lawn o gyfarfodydd pwyllgorau yn unol â’r arfer. Yn ogystal byddwn yn profi’r systemau er mwyn sicrhau fod y dechnoleg yn ateb y gofynion sylfaenol o

    - fod yn rhwydd i’w defnyddio gan staff a chynghorwyr (ac unrhyw un arall sy’n debygol o fod yn ei defnyddio)
    - fod yn ateb gofynion dwyieithrwydd a gwe ddarlledu.

8. Noder y rhagwelir y bydd rhai heriau i’w goresgyn, megis trefniadau pleidleisio. Byddwn yn gweithio ar ddatrysiadau i geisio goresgyn hyn.

9. Y cam nesaf fydd cynnal peilot o’r trefniadau gyda phwyllgorau penodol fod bo Cynghorwyr yn treialu’r trefniadau ac yn derbyn rhywfaint o hyfforddiant. Fel yr adroddwyd ym mis Gorffennaf gall y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth, mewn ymgynghoriad gyda Chadeirydd pwyllgorau unigol, gytuno i gynnal peilot o unrhyw drefniadau arfaethedig. Y bwriad yw symud ymlaen gyda’r elfen yma yn ystod tymor yr Hydref.

**Camau nesaf**

10. Law yn llaw â’r camau a nodwyd uchod, bydd yn ofynnol sefydlu protocol ar gyfer sut i gynnal cyfarfodydd hybrid (tebyg i’r protocol ar gyfer cynnal cyfarfodydd rhithiol a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar 08/07/2021). Bydd rhaid, fel rhan o’r gwaith yma, sefydlu beth ydi polisi'r Cyngor ynglŷn â dyfarnu pa gyfarfodydd a pha fath o gyfarfodydd all fod yn rhithiol, a pha rai fydd yn gyfarfodydd hybrid. Bydd hyn yn adeiladu ar y gwaith cychwynnol sydd wedi ei wneud gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ar 18/02/2021, oedd yn cefnogi parhau i gynnal rhai o gyfarfodydd y

Cyngor yn rhithiol llwyr gydag eraill yn cael eu cynnal yn hybrid. Yn ogystal, bydd yn ofynnol parhau i roi sylw i'r rheoliadau neu arweiniad sydd mewn lle gyda sefyllfa'r Coronafirws - gweler 12 isod.

11. Bydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yn trafod y protocolau drafft yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2021. Bydd y Cabinet yn trafod a mabwysiadu ei drefniadau ei hun yn unol â'r gofyn. Yn ddarostyngedig i'r datblygiadau technegol ac ymarferol, y bwriad yw cyflwyno'r protocolau drafft i gyfarfod y Cyngor llawn ym mis Rhagfyr. Rhagwelir y bydd yn ofynnol cynnal cyfnod prawf ar unrhyw drefniadau gan eu hadolygu o fewn cyfnod synhwyrol.

12. Noder fod yr holl ddatblygiadau yn ddarostyngedig i reoliadau Coronafeirws sydd yn berthnasol i'n penderfyniadau ynglŷn â mynychu swyddfeydd. Pan ostyngwyd Lefel Rhybudd Cymru Gyfan i lawr i '0' ddechrau Awst, doedd dim newid i ganllawiau Llywodraeth Cymru, ac roeddent yn glir y dylai pawb barhau i weithio o gartref os yn bosib'. Ar hyn o bryd, i ni yma yng Nghyngor Gwynedd, nid oes unrhyw newid i'r trefniadau gweithio felly. Mae asesiad risg ar gyfer mynychu'r weithfan yn ddiogel yn cael ei greu ar gyfer swyddogion sy'n gorfod mynychu'r swyddfa i dreialu'r dechnoleg newydd, ond gall hyn olygu llithriad i'r rhaglen waith. Bydd yn rhaid dal sylw at yr arweiniad cenedlaethol ynghylch Coronafirws wrth adolygu'r sefyllfa eto.

## 3. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

3.1 Ymgynghorwyd gyda'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ar y trefniadau interim yn eu cyfarfod ar 29/06/2021. Yn ogystal, gan fod trefniadau'r Cabinet ar wahân, adroddwyd ar y bwriadau interim i'r Cabinet ar 06/07/2021. Mabwysiadwyd y trefniadau interim gan y Cyngor llawn ar 08/07/2021.

### 3.1 SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL:

**Swyddog Monitro:**

Rwyf wedi cael cyfle i roi arweiniad ar y mater yma fel rhan o'r gwaith prosiect ar y Ddeddf newydd. Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Cadarnhaf fod y Cabinet, yng nghyfarfod 27 Gorffennaf, wedi cymeradwyo £130k o'r 'Gronfa Trefniadau Adfer yn sgil Covid19' ar gyfer y cynllun yma.

Mae'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth wedi gweithio gyda'r Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith er mwyn sicrhau datblygiad cynaliadwy i'r dyfodol ar gyfer cyfarfodydd 'hybrid'. Mae'r adroddiad yn nodi cynnydd hyd yma yn unol â'r rhaglen waith ac yn adlewyrchiad cywir o'r sefyllfa bresennol.

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **CYNGOR LLAWN** |
| DYDDIAD: | **7 HYDREF 2021** |
| PWNC: | **DIWYGIADAU I GYTUNDEB RHYNG-AWDURDOD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU** |
| PWRPAS: | **I GYMERADWYO DIWYGIADAU I GYTUNDEB RHYNG-AWDURDOD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **DAFYDD L EDWARDS**, **PENNAETH CYLLID** |
| AELOD PERTHNASOL: | **CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS, CADEIRYDD, PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| AELOD CABINET: | **CYNGHORYDD IOAN THOMAS, AELOD CABINET CYLLID** |

---

**PENDERFYNIAD A GEISIR**

**I dderbyn y diwygiadau i Gytundeb Rhyng-Awdurdod Partneriaeth Pensiwn Cymru**

---

**CYFLWYNIAD**

**1.** Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) yn bwl Buddsoddi Cynllun Pensiwn Llywodraeth leol (CPLlL) sydd yn cynnwys asedau o'r wyth cronfa CPLlL yng Nghymru.

**2.** Mae bodolaeth a datblygiad PPC yn dilyn diwygio mandad buddsoddi a gyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) yn Nhachwedd 2015, gyda'r bwriad o arbed ffioedd rheolwyr buddsoddi drwy fuddsoddi ar raddfa mwy. Roedd yr wyth cronfa CPLlL eisoes wedi symud tuag at gyd-weithio er mwyn sicrhau mwy o opsiynau arallgyfeirio ac enillion buddsoddi mwy dibynadwy.

**3.** Mae PPC nawr yn gwbl weithredol ac yn cael ei lywodraethu gan y Cydbwyllgor Llywodraethu sydd yn cynnwys aelod etholedig o'r wyth cronfa yng Nghymru, fel arfer Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau. Mae'r trefniant llywodraethu yma wedi ei osod o fewn y Cytundeb Rhyng-Awdurdod (CRhA) a gafodd ei gymeradwyo yn wreiddiol gan y Cyngor ym Mawrth 2017.

**4.** Ers cymeradwyo'r CRhA mae angen diwygio'r cytundeb yn unol â datblygiadau pwlio ac arferion da sydd wedi dod i'r amlwg.

**PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU**

**5.** Mae'r PPC nawr wedi ei sefydlu'n dda ac yn gweithredu fel y rhagwelir gan MHCLG ers ei ddechreuad yn 2017. Mae Diweddariad Blynyddol diweddaraf PPC ar 31ain Mawrth 2021 wedi amlygu'r datblygiadau allweddol canlynol:

i) Mae PPC wedi sefydlu with is- gronfa buddsoddi ar draws dosbarthiadau ased Ecwiti ac Incwm Sefydlog, gydag is- gronfeydd pellach yn cael ei lansio yn 2021 a 2022.

ii) Mae cyfanswm o £9.4 biliwn wedi ei bwlio, gyda £5.2 biliwn wedi ei bwlio gyda threfniant buddsoddi goddefol.

iii) Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi llwyddo i bwlio 81% o'i asedau ar 31ain Mawrth 2021.

iv) Mae strwythur llywodraethu'r pwl yn weithredol yn llawn gydag ymgynghorwyr arbenigol yn cefnogi PPC o ran rheoli buddsoddiadau, pleidleisio, gwasanaethau ymgysylltu a chyfreithiol. Mae nifer o ddogfennau polisi wedi ei sefydlu a chyhoeddi ar wefan PPC sydd yn ymdrin â phob agwedd o fuddsoddi, llywodraethu a rheoli risg.

Ceir rhagor o wybodaeth am Bartneriaeth Pensiwn Cymru fan hyn:

https://www.cronfabensiwngwynedd.cymru/cy/Buddsoddiadau/Partneriaeth-Pensiwn-Cymru.aspx

https://www.partneriaethpensiwncymru.org/

**6.** Yn dilyn derbyn cymeradwyaeth gan y Cydbwyllgor o'r newidiadau o fewn pwyntiau 7 ac 8 o'r adroddiad yma, mae PPC nawr angen cymeradwyaeth yr wyth awdurdod cyfansoddol e.e. cymeradwyaeth Cyngor llawn, er mwyn symud ymlaen i weithredu'r newidiadau yma.

**DIWYGIADAU I'R CYTUNDEB RHYNG-AWDURDOD**

**7.** Mae dau brif feysydd diwygio fel a ganlyn:

- Apwyntio dyranwr i'r is-gronfeydd Marchnadoedd Preifat Amgen- Yn dilyn derbyn cyngor proffesiynol, cytunwyd gan y Cydbwyllgor byddai 'Dyranwr/wŷr' arbenigol gyda phrofiad a Gwybodaeth eang o Farchnadoedd Preifat yn cael ei apwyntio. Budd unrhyw apwyntiadau/ terfynu'r rôl Dyranwr angen cymeradwyaeth gan y Cydbwyllgor.

- Cynrychiolydd aelod o'r cynllun i fod ar y cydbwyllgor fel aelod cyfetholedig heb bleidlais - Yn dilyn derbyn cyngor cyfreithiol penderfynwyd yng nghyfarfod y Cydbwyllgor ar 10 Rhagfyr 2020 y dylid cael cynrychiolydd aelod o gynllun bwrdd pensiwn cyfetholedig (heb bleidlais) ar y cydbwyllgor.

**8.** Gyda'r newidiadau yma angen cymeradwyaeth awdurdodau cyfansoddol, mae'r swyddogion wedi cynnal adolygiad o'r cytundeb ac mae newidiadau eraill wedi ei wneud, i ddiweddaru a lliniaru'r cytundeb gyda'r gwaith a gyflawnir gan PPC.

Mae'r newidiadau wedi ei gynnwys yn Atodiad 1 - Diwygiadau i'r Cytundeb o'r ddogfen atodol.

**ARGYMHELLIAD**

9. Gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo'r diwygiadau i'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod fel yr amlinellir yn Atodiad 1.

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Swyddog Monitro:**
Mae'r argymhellion yma wedi bod yn destun arweiniad cyfreithiol arbenigol. Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cyd-weithio gydag eraill i baratoi'r adroddiad a diwygiadau ac yn cadarnhau bod y cynnwys yn addas i'r pwrpas.

| **Dyddiedig** | **2021** |
|---|---|

**Diwygiad i'r Cytundeb Rhyng- Awdurdod rhwng**

| | |
|---|---|
| Cyngor Sir Gâr | (1) |
| Cyngor Dinas a Sir Abertawe | (2) |
| Cyngor Dinas Caerdydd | (3) |
| Cyngor Sir y Fflint | (4) |
| Cyngor Gwynedd | (5) |
| Cyngor Sir Powys | (6) |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | (7) |
| Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Torfaen | (8) |

Ref: PM08/MH09
Burges Salmon LLP
www.burges-salmon.com
**Tel: +44 (0)117 939 2000**
Fax: +44 (0)117 902 4400

A wnaed ar 2021

Gan

(1) **CYNGOR SIR GÂR** Neuadd y Sir, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 1JP

(2) **CYNGOR DINAS A SIR ABERTAWE** Neuadd y Ddinas, Abertawe, SA1 4PE

(3) **CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD** Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW

(4) **CYNGOR SIR Y FFLINT** Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6NA.

(5) **CYNGOR GWYNEDD** Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH

(6) **CYNGOR SIR POWYS** Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys, LD1 5LG

(7) **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** Y Pafiliynau, Cwm Clydach, Tonypandy, CF40 2XX

(8) **CYNGOR BWRDEISTREFOL SIROL TORFAEN,** Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl, Torfaen, NP46YB

(y cyfeirir atynt ar y cyd fel "**Awdurdodau Cyfansoddol**" ac yn unigol fel "**Awdurdod Cyfansoddol**")

**1 CEFNDIR**

1.1 Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol oll yn gynghorau sy'n gyfrifol am weinyddu llywodraeth leol o fewn eu hardaloedd fel y nodir yn Neddf Llywodraeth Leol 1972. Yn ei llythyr, dyddiedig 23 Tachwedd 2016, mae'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol wedi cadarnhau bod yr Awdurdodau Cyfansoddol wedi cael caniatâd i bob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol unigol barhau i gydweithio gyda phob Awdurdod Cyfansoddol arall i ffurfio pŵl o asedau yng nghyswllt pob un o'u cronfeydd unigol dan y CPLlL.

1.2 Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol wedi ymrwymo i ddatblygu cydbwyllgor ffurfiol yn unol ag adran 101 ac adran 102 Deddf Llywodraeth Leol 1972 trwy Weithred dyddiedig 26 Mehefin 2017. Mae'r Cytundeb yng nghymal 34 yn caniatáu gwneud newidiadau i'w delerau cyn belled a bo'r cytundeb yn ysgrifenedig a'i fod wedi'i lofnodi ar ran yr Awdurdodau Cyfansoddol gan gynrychiolwyr awdurdodedig.

1.3 Gwneir y Diwygiad hwn o dan gymal 34 er mwyn diwygio'r Cytundeb i:

(a) alluogi i aelod cyfetholedig gymryd rhan yn y Cydbwyllgor Llywodraethu; a

(b) caniatáu nifer o newidiadau sy'n cefnogi datblygiad ac effeithiolrwydd y gyfundrefn buddsoddi ar y cyd.

**TELERAU Y CYTUNWYD ARNYNT**

**2 DEHONGLIAD**

2.1 Yn y Diwygiad hwn bydd gan y termau hyn yr un ystyr ag a nodwyd yn y Cytundeb, sef:

(a) **Cytundeb** yn golygu'r weithred yn dwyn y teitl Cytundeb Rhwng Awdurdod a wnaed rhwng yr Awdurdodau Cyfansoddol ar 26 Mehefin 2017.

(b) **Diwygiad** yn golygu'r ddogfen hon sy'n diwygio telerau'r Cytundeb.

## 3 CYCHWYN

Bydd y Diwygiad hwn yn cychwyn ar [ ] 2021. Er mwyn osgoi amheuaeth, bydd y Diwygiad hwn mewn grym pan fo pob Awdurdod Cyfansoddol wedi ei lofnodi yn unol â chymal 34 y Cytundeb.

## 4 DIWYGIO'R CYTUNDEB

Mae'r Cytundeb wedi'i ddiwygio fel nodir yn Atodlen 1 o'r Diwygiad hwn.

## 5 TORIAD

5.1 Os yw unrhyw ddarpariaeth neu ran-ddarpariaeth o'r Cytundeb neu'r Diwygiad hwn yn dod yn annilys, yn anghyfreithlon neu'n anorfodadwy, caiff ei addasu i'r graddau lleiaf sydd angen i'w wneud yn ddilys, yn gyfreithlon ac yn orfodadwy. Os nad yw addasiadau o'r fath yn bosib, bernir bod y ddarpariaeth neu'r rhan-ddarpariaeth berthnasol wedi'i dileu. Ni fydd addasu neu ddileu darpariaeth neu ran-ddarpariaeth dan y cymal hwn yn effeithiol ar ddilysrwydd na'r gallu i orfodi gweddill y Cytundeb hwn.

5.2 Os yw un Awdurdod Cyfansoddol yn rhoi rhybudd i'r Awdurdodau Cyfansoddol eraill o'r posibilrwydd y gall unrhyw ddarpariaeth neu ran-ddarpariaeth o'r Cytundeb hwn fod yn annilys, yn anghyfreithlon neu'n anorfodadwy, bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn negydu'n ddidwyll i ddiwygio darpariaeth o'r fath fel y bydd, wedi'i ddiwygio, yn gyfreithlon, yn ddilys ac yn orfodadwy ac, i'r graddau mwyaf posib, yn cyflawni canlyniad bwriedig y ddarpariaeth wreiddiol.

## 6 GWRTHRANNAU

Gellir cyflawni'r Diwygiad hwn mewn unrhyw nifer o wrthrannau gan yr Awdurdodau Cyfansoddol, a thrwy eu cymryd gyda'i gilydd, un ac yr un cytundeb fyddant, a gall unrhyw Awdurdod Cyfansoddol (gan gynnwys unrhyw gynrychiolydd awdurdodedig Awdurdod cyfansoddol) weithredu'r Diwygiad hwn drwy weithredu gwrthran.

## Atodlen 1

Diwygiadau i'r Cytundeb

Gwneir y diwygiadau a ganlyn i'r Cytundeb:

**1 CYMAL 1 DEHONGLIAD**

1.1 Yng nghymal 1, ychwanegu'r diffiniad a ganlyn ar ddechrau'r rhestr o ddiffiniadau:

**Dyrannwr,** sef un neu ragor o ddyranwyr ar gyfer dosbarthiadau ased [marchnad preifat] a fydd yn hwyluso'r strwythur buddsoddi a ffafrir ac yn dethol is-reolwyr, y cronfeydd sylfaenol a/neu fuddsoddiadau uniongyrchol er dibenion y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd, a benodir gan y Cydbwyllgor Llywodraethu.

1.2 Yng nghymal 1, ar ôl y diffiniad o “Awdurdodau Cyfansoddol”, ychwanegu'r diffiniadau a ganlyn:

**Rhestr Gysylltiadau,** sef dogfen sy'n cael ei chylchredeg o bryd i'w gilydd gan yr Awdurdod Lletya sy'n nodi'r manylion cyswllt perthnasol ar gyfer pob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol.

**Aelod Cyfetholedig,** sef person, wedi'i enwebu gan Awdurdod Cyfansoddol neu Fwrdd Pensiwn Awdurdod Cyfansoddol, a benodir fel Aelod Cyfetholedig o'r Cydbwyllgor Llywodraethu gan yr Aelodau; nad yw'n aelod etholedig o Awdurdod Cyfansoddol, ond sy'n Gynrychiolydd Aelod Pensiwn o Awdurdod Cyfansoddol.

1.3 Yng nghymal 1 (a thrwy'r holl ddogfen wedi hynny, a’r tudalennau cynnwys), newidir y diffiniad o “Cyngor Lletya**”** i **“Awdurdod Lletya”** ond mae ei ystyr yn parhau drwy gydol y ddogfen, sef:

**Awdurdod Lletya** sef yr Awdurdod Cyfansoddol sydd wedi'i benodi yn unol â chymal 7 ac y mae ei ddyletswyddau wedi'u disgrifio o fewn y cymal hwnnw.

1.4 Yng nghymal 1, dileu'r diffiniad o Aelod a'i ddisodli gan y diffiniad a ganlyn:

**Aelod**, sef pob un o'r aelodau etholedig o'r Awdurdodau Cyfansoddol a enwebwyd i fod yn Aelodau o'r Cydbwyllgor Llywodraethu yn unol â chymal 3.3(a).

1.5 Yng nghymal 1, yn dilyn y diffiniad o “Bwrdd Pensiwn”, ychwanegu'r diffiniad a ganlyn:

**Cynrychiolydd Aelod Pensiwn**, sef person a benodir i Fwrdd Pensiwn fel cynrychiolydd aelodau yn unol â rheoliad 107(2)(b) Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013.

**2 CYMAL 3**

2.1 Dileu cymal 3.3 a'i ddisodli gan:

3.3 Bydd Aelodaeth y Cydbwyllgor fel a ganlyn:

(a) un aelod etholedig a enwebir gan bob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol, a bwrw bod yr aelod a enwebir yn aelod etholedig o'r Awdurdod Cyfansoddol ac yn aelod o bwyllgor pensiynau'r Awdurdod Cyfansoddol hwnnw (neu gorff cyfatebol) er dibenion Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013; a

(b) un Aelod Cyfetholedig a benodir drwy benderfyniad yr Aelodau (neu is-grŵp o Aelodau lle ffurfir is-grŵp o'r fath i ystyried yr ymgeiswyr), a bydd yr Aelod Cyfetholedig yn cael ei ddethol o'r grŵp o ymgeiswyr a enwebir gan bob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol neu eu Byrddau Pensiwn.

2.2 Dileu cymal 3.4 a'i ddisodli gan:

3.4 Er dibenion cymal 3.3, gall pob Awdurdod Cyfansoddol benodi dirprwy a enwir ar gyfer pob Aelod, y bydd yn rhaid iddo fod yn aelod etholedig o’r un Awdurdod Cyfansoddol a phwyllgor pensiynau'r un Awdurdod Cyfansoddol (neu gorff cyfatebol) er dibenion Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 â'r Aelod y mae'n dirprwyo ar ei ran; a

3.4 A Yn achos yr Aelod Cyfetholedig, penodir dirprwy drwy benderfyniad yr Aelodau (neu is-grŵp o Aelodau lle ffurfir is-grŵp o'r fath i ystyried yr ymgeiswyr), a bydd dirprwy yr Aelod Cyfetholedig yn cael ei ddethol o'r grŵp o ymgeiswyr a enwebir gan bob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol neu eu Byrddau Pensiwn.

2.3 Mewnosod cymal 3.8 newydd:

3.8 Gwahoddir yr Aelod Cyfetholedig i'r holl hyfforddiant a ddarperir i Aelodau o dan gymal 3.7 a bydd disgwyl iddo fynychu’r hyfforddiant hwnnw.

**3 CYMAL 31**

3.1 Diwygio Cymal 31.1 drwy ddileu'r geiriau “Atodlen 1” a'u disodli gyda “Rhestr Gysylltiadau”.

**4 ATODLEN 1**

4.1 Yn Atodlen 1, dileu cynnwys yr atodlen a'i ddisodli gan:

O [dyddiad] ymlaen, bydd yr Awdurdod Lletya yn cynnal rhestr o'r manylion cyswllt perthnasol ar gyfer pob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd y ddogfen yn cael ei chyhoeddi o bryd i'w gilydd gan yr Awdurdod Cyfansoddol i’r Awdurdodau Cyfansoddol a bydd hefyd ar gael ar gais.

**5 ATODLEN 2**

5.1 Yn Atodlen 2, ychwanegu eitemau newydd i'r rhestr wedi'i rhifo, fel a ganlyn:

12. Enwebu Aelod Cyfetholedig i'r Cydbwyllgor Llywodraethu (ac eithrio pan fo'r swyddogaeth yn cael ei gweithredu gan Fwrdd Pensiwn, yn yr achos hynny cedwir y swyddogaeth gan y Bwrdd Pensiwn hwnnw).

13. Cymeradwyo newidiadau i gylch gorchwyl y Cydbwyllgor Llywodraethu fel nodir yn Atodlen 4.

**6 ATODLEN 4**

6.1 Yn Atodlen 4 Cydbwyllgor Llywodraethu – Cylch Gorchwyl, disodli'r pwyntiau bwled gyda rhifau.

6.2 Yn Atodlen 4, dileu eitem 8 a'i ddisodli gan:

8. O bryd i'w gilydd, adolygu polisïau yn nhermau materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu a ble bo hynny'n briodol, gwneud argymhellion i'r Awdurdodau Cyfansoddol ynghylch unrhyw newidiadau y pennir eu bod yn angenrheidiol.

6.3 Yn Atodlen 4, dileu eitem 13 a'i ddisodli gan:

13. Monitro gweithrediad ac effeithiolrwydd y polisïau a ddisgrifir yn Atodlen 5 a chychwyn adolygiadau o'r rhain ble bo angen.

6.4 Yn Atodlen 4, dileu eitem 19 a'i ddisodli gan:

19. Cytuno ar feini prawf ar gyfer arfarnu bidiau neu dendrau ar gyfer unrhyw proses gaffael Gweithredwr (gan gynnwys, er mwyn osgoi amheuaeth, Gweithredwr newydd) i'w cyflwyno er cymeradwyaeth gan yr Awdurdodau Cyfansoddol.

6.5 Yn Atodlen 4, ychwanegu eitemau newydd fel a ganlyn:

20. Bydd unrhyw gyfeiriad yn yr atodlen hwn i gamau gweithredu a gymerir gan y Cydbwyllgor Llywodraethu, gan gynnwys cytuno, cymeradwyo neu wneud argymhellion, yn cael eu penderfynu yn unol â'r darpariaethau pleidleisio a nodir yn Atodlen 6.

21. Cymeradwyo penodiad Dyrannwr yn dilyn argymhelliad gan y Gweithgor Swyddogion (GS), adolygu perfformiad y Dyrannwr/Dyranwyr, ac adrodd ar berfformiad y Dyrannwr/Dyranwyr i'r Awdurdodau Cyfansoddol.

22. Cymeradwyo terfynu penodiad Dyrannwr yn dilyn argymhelliad gan y GS.

**7 ATODLEN 5**

7.1 Yn Atodlen 5, dileu'r geiriad presennol a'i ddisodli gan:

Bydd y Cydbwyllgor Llywodraethu, gyda chefnogaeth y GS, yn cynhyrchu ac yn adolygu'n barhaus y polisïau a gweithdrefnau llywodraethu fel sy'n briodol ar gyfer y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd sy'n cynnwys (er mwyn osgoi amheuaeth, nid yw'n rhestr gynhwysfawr):

(a) Polisi Buddsoddi Cyfrifol

(b) Polisi Risg Hinsawdd

(c) Polisi Pleidleisio

(d) Polisi a Chynlluniau Hyfforddiant

(e) Polisi Cyfathrebu

(f) Matrics Penderfyniadau Llywodraethu

(g) Polisi Risg a Chofrestr Risg

(h) Polisi a Gweithdrefn Gwrthdrawiadau Buddiannau

(i) Polisi Ail-gydbwyso ac Altro

(j) Matrics Cyfrifoldebau

(k) Polisi Cwynion

(l) Polisi Canu'r Gloch

(m) Polisi Toriadau a Chamgymeriadau

(n) Cynllun Parhad Busnes

**8 ATODLEN 6**

8.1 Mae paragraff 1 Atodlen 6 yn cael ei ddileu a'i ddisodli gan:

1 AELODAETH

1.1. Bydd aelodaeth y Cydbwyllgor Llywodraethu yn cynnwys un Aelod o bob Awdurdod Cyfansoddol ac un Aelod Cyfetholedig.

1.2 Ni chaniateir eilyddion ac eithrio dirprwyon.

8.2 Mewnosodir adran 1A newydd, SWYDDOGAETH YR AELOD CYFETHOLDEIG, ar ôl adran 1 atodlen 6 fel a ganlyn:

1A SWYDDOGAETH YR AELOD CYFETHOLEDIG

1A.1 Prif swyddogaeth yr Aelod Cyfetholedig yw cynrychioli'r cynllun aelodau ar y Cydbwyllgor Llywodraethu.

1A.2 Mae gan yr Aelod Cyfetholedig hawl i fynychu holl gyfarfodydd y Cydbwyllgor Llywodraethu, gan gynnwys eitemau eithriedig, i dderbyn copïau o'r holl bapurau, ac i siarad ar unrhyw eitem yn ystod cyfarfodydd y Cydbwyllgor Llywodraethu.

1A.3 Gall yr Aelod Cyfetholedig ofyn i'r Cadeirydd gynnwys unrhyw fater ar y rhaglen yr ystyriant y dylid ei drafod gan y Cydbwyllgor Llywodraethu.

8.3 Bydd llinell gyntaf Cymal 2.3 yn cael ei diwygio drwy fewnosod y geiriau 'crynodebau gweithredol o bob', a dileu'r gair 'pob' cyn 'agenda'.

8.4 Bydd Cymal 2.4 yn cael ei ddileu a'i ddisodli gan:

2.4 Gall y Cydbwyllgor Llywodraethu benderfynu caniatáu mynychu cyfarfodydd o bell drwy fideo-gynadledda neu gyfrwng tebyg, gan roi ystyriaeth i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir o bryd i'w gilydd gan Lywodraeth Cymru. Pennir bod unrhyw Aelod sy'n mynychu drwy fideo-gynadledda yn bresennol yn y cyfarfod er dibenion yr Atodlen hon.

8.5 Mae paragraff 2.5 Atodlen 6 yn cael ei ddileu a'i ddisodli gan:

2.5 Gellir galw cyfarfod o'r Cydbwyllgor Llywodraethu gan swyddog priodol o’r Awdurdod Lletya ar gais y Cadeirydd. Rhaid i Aelodau ac Aelod Cyfetholedig ddatgan unrhyw fuddiannau sy'n gwrthdaro yng nghyswllt unrhyw fusnes a gynhelir yn y cyfarfod a fyddai'n debygol o gael ei ystyried i fod yn rhagfarnu gweithrediad swyddogaeth rhywun fel aelod o'r cyfarfod.

8.6 Mae paragraff 2.6 Atodlen 6 yn cael ei ddileu a'i ddisodli gan:

2.6 Mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am redeg y cyfarfodydd. Bydd y Cadeirydd yn gwahodd yr Aelodau a'r Aelod Cyfetholedig i fynegi dymuniad i siarad yn eu tro. Bydd yr holl drafodaethau a'r dadleuon yn cael eu cynnal drwy'r Gadair a gall y Cadeirydd symud trafodaeth i bleidlais unrhyw bryd os yw'n ystyried bod pob Aelod a'r Aelod Cyfetholedig wedi cael cyfle teg i siarad.

8.7 Mae is-baragraff 2.9(a) Atodlen 6 yn cael ei ddileu a'i ddisodli gan:

Os yw unrhyw eitem i'w thrafod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig, bydd y Cadeirydd yn cynnig eithrio'r cyhoedd a'r wasg o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar yr eitem honno. Caniateir i'r Aelod Cyfetholedig barhau yn y cyfarfod ac ni fydd yn cael ei eithrio. Nid oes angen i gynigion i eithrio'r wasg a'r cyhoedd gael eu heilio ac fe'u pennir drwy bleidlais fwyafrif syml gan yr Aelodau sy'n bresennol.

8.8 Mae paragraff 6.2 Atodlen 6 yn cael ei ddileu a'i ddisodli gan:

6.2 Gall Aelod neu Aelod Cyfetholedig godi mater o drefn ar unrhyw adeg. Bydd y Cadeirydd yn gwrando arnynt ar unwaith. Gall pwynt o drefn gyfeirio at honiad o dorri darpariaethau'r Atodlen hon, neu'r gyfraith neu awdurdod cymwys arall, yn unig. Rhaid i'r Aelod neu Aelod Cyfetholedig nodi pa ddarpariaeth neu gyfraith neu reoliad ac ym mha ffordd y creda y mae wedi'i d/thorri. Bydd penderfyniad y Cadeirydd ar y mater yn derfynol. Gall y Cadeirydd dderbyn cyngor ar y pwynt o drefn gan y swyddog priodol.

8.9 Mae paragraff 7 Atodlen 6 yn cael ei ddileu a'i ddisodli gan:

**7 PLEIDLEISIO**

7.1 Gall y Cadeirydd ofyn am gonsensws ble bo hynny'n bosib; fodd bynnag, os bydd angen pleidlais, bydd darpariaethau'r adran hon yn berthnasol.

7.2 Bydd gan bob Aelod sy'n bresennol un bleidlais ac fe bleidleisir drwy godi llaw, neu unrhyw ddull arall y mae'r Cadeirydd yn penderfynu sy'n addas yn yr amgylchiadau, gan gynnwys trwy alw enwau. Ni chaniateir i'r Aelod Cyfetholedig bleidleisio. Os digwydd i'r pleidleisiau fod yn gyfartal, bydd gan y Cadeirydd ail bleidlais neu bleidlais fwrw.

7.3 Gwneir yr holl benderfyniadau drwy fwyafrif syml yr Aelodau sy'n bresennol.

7.4 Os cymerir pleidlais, cofnodir safbwynt pleidleisio ac unrhyw ymatal gan aelodau yn y cofnodion.

8.10 Mae paragraff 8.1 Atodlen 6 yn cael ei ddileu a'i ddisodli gan:

8.1 Bydd y Cydbwyllgor Llywodraethu yn ffurfio unrhyw is-bwyllgorau a gweithgorau y mae'n eu hystyried yn fanteisiol i ymgymryd â'i swyddogaeth. Ar adeg ffurfio is-bwyllgorau neu weithgorau, bydd y Cydbwyllgor Llywodraethu yn gosod cylch gorchwyl yr is-bwyllgorau neu'r gweithgorau, yr hyn y mae gofyn i'r is-bwyllgorau neu'r gweithgorau eu darparu ac amserlen gwneud hynny. Caniateir i'r Aelod Cyfetholedig fod yn aelod o unrhyw is-bwyllgor neu weithgor.

Mae paragraff 8.4 Atodlen 6 yn cael ei ddileu a'i ddisodli gan:

8.4 Gall gweithgorau wahodd unrhyw un nad yw'n Aelod neu'n Aelod Cyfetholedig i ymuno â'r grŵp er mwyn cynorthwyo wrth ymgymryd â'i swyddogaeth.

**9 ATODLEN 8**

9.1 Yn Atodlen 8, disodli llythrennau a-o gyda'r rhifau 1-17.

9.2 Yn Atodlen 8, mewnosod yr eitemau a ganlyn ar ôl eitem 14 (gan ddefnyddio hanner-colon ac atalnod llawn yn ôl yr angen):

15. sefydlu is-grwpiau a/neu weithgorau o'r GS os yw'r GS yn ystyried y byddai is-grŵp neu weithgor o'r fath yn cynorthwyo ag effeithlonrwydd y GS i wneud cynnydd â phrosiect neu ffrwd gwaith penodol;

16. adolygu, llunio neu werthuso trefniadau a pholisïau llywodraethu ar gyfer y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd (gan gynnwys, er mwyn osgoi amheuaeth, y polisïau a'r gweithdrefnau a ddisgrifir yn Atodlen 5);

18. rheoli'r broses gaffael ar gyfer caffael unrhyw Ddyrannwr, neu Ddyrannwr newydd, gan gynnwys penderfynu ar y meini prawf ar gyfer arfarnu bidiau neu dendrau;

19. monitro ac adolygu perfformiad y Dyrannwr/Dyranwyr wrth gyflawni ei amcanion perthnasol, ei lefelau gwasanaeth a'i ddangosyddion perfformiad allweddol.

ER MWYN TYSTIO hynny mae'r partïon wedi gweithredu'r Cytundeb hwn ar y dyddiad a'r flwyddyn yr ysgrifennwyd eisoes.

SÊL GYFFREDIN )

Cyngor Sir Gâr )

a osodwyd yma )

yng ngŵydd:- )

Swyddog Awdurdodedig

SÊL GYFFREDIN )

Cyngor Dinas a Sir Abertawe )

a osodwyd yma )

yng ngŵydd:- )

Swyddog Awdurdodedig

SÊL GYFFREDIN )

Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd )

a osodwyd yma )

yng ngŵydd:- )

Swyddog Awdurdodedig

SÊL GYFFREDIN )

Cyngor Sir y Fflint )

a osodwyd yma )

yng ngŵydd:- )

Cadeirydd / Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Prif Swyddog Llywodraethu

SÊL GYFFREDIN )

Cyngor Gwynedd )

a osodwyd yma )

yng ngŵydd:- )

Swyddog Awdurdodedig

SÊL GYFFREDIN )

Cyngor Sir Powys )

a osodwyd yma )

yng ngŵydd:- )

Swyddog Awdurdodedig

SÊL GYFFREDIN )

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda-Cynon-Taf )

a osodwyd yma )

yng ngŵydd:- )

Swyddog Awdurdodedig

SÊL GYFFREDIN )

Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Torfaen )

a osodwyd yma )

yng ngŵydd:- )

Swyddog Awdurdodedig

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Y CYNGOR |
| **DYDDIAD** | 7fed o HYDREF 2021 |
| **TEITL** | RHEOLI SEFYDLIADAU RHYW - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1982 |
| **PWRPAS** | MABWYSIADU GRYMOEDD I REOLEIDDIO SEFYDLIADAU RHYW A'R GOFYNION CYSYLLTIOL |
| **AELOD CABINET** | Y CYNGHORYDD GARETH GRIFFITH |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | GWENAN MAI ROBERTS, RHEOLWR TRWYDDEDU A RHEOLAETH LLYGREDD (GWARCHOD Y CYHOEDD) |

## 1. GWYBODAETH GEFNDIROL

1.1 Mae'n ofynnol i Awdurdod Trwyddedu sydd yn dymuno rheoleiddio sefydliadau rhyw yn ei ardal fabwysiadu darpariaethau Atodlen 3 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 ("Deddf 1982"), fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Plismona a Throseddu 2009 ("Deddf 2009").

1.2 Mae mabwysiadu Atodlen 3 o Ddeddf 1982 yn ddewisol ac fel arfer yn digwydd pan gyflwynir rhybudd o fwriad i agor busnes o'r fath am y tro cyntaf. Yn hanesyddol, dim ond ym Mangor y derbyniwyd cais ble rhoddwyd trwydded i agor busnes o'r fath.

1.3 Daeth Deddf 1982 i rym ym 1982. Rhwng 1982 a 1996 mater i'r cyn gynghorau dosbarth a bwrdeistref oedd penderfynu a ddylid mabwysiadu Atodlen 3. Dengys tystiolaeth o gofnodion y cyn gynghorau mai dim ond Cyngor Bwrdeistref Arfon wnaeth benderfyniad i fabwysiadu Atodlen 3, gyda'r penderfyniad yn dod yn weithredol ar 1 Awst 1983. Nid oes tystiolaeth fod Cyngor Dosbarth Dwyfor na Chyngor Dosbarth Meirionnydd erioed wedi gwneud y penderfyniad i fabwysiadu Atodlen 3, rhwng Deddf 1982 yn dod i rym a diddymu'r awdurdodau hynny adeg ad-drefnu llywodraeth leol ym 1996.

1.4 Mae'n ymddangos hefyd nad oes tystiolaeth bod Cyngor Gwynedd, ers ei sefydlu yn 1996, erioed wedi gwneud penderfyniad i fabwysiadu Atodlen 3 chwaith. Yr unig ardal o'r sir lle mae gan y Cyngor yr hawl i drwyddedu o dan Atodlen 3 yw ardal Arfon (sef ardal yr hen Gyngor Bwrdeistref Arfon). Mae hyn o ganlyniad i rym a etifeddodd y Cyngor oddi wrth yr hen Gyngor Bwrdeistref Arfon adeg ad-drefnu, grym sy'n deillio o'r penderfyniad a wnaed gan y cyn-awdurdod i fabwysiadu o fewn ffiniau Arfon.

1.5 Yn ogystal, ers i Gyngor Bwrdeistref Arfon benderfynu mabwysiadu ym 1983, mae Atodlen 3 wedi ei diwygio gan adran 27 o Ddeddf 2009 i gynnwys y gallu i drwyddedu mangreoedd adloniant rhywiol. Gan fod y diwygiad yn ddewisol ac wedi ei gyflwyno ar ôl y penderfyniad i fabwysiadu, nid yw grym y Cyngor i reoleiddio yn Arfon o dan Atodlen 3 yn cynnwys y gallu i reoleiddio mangreoedd adloniant rhywiol ar hyn o bryd.

1.6 Fe fu i'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol ystyried yr angen i fabwysiadu trefn o'r fath a chynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar hynny, yn ei gyfarfod ar 19 Gorffennaf 2021. Yn y cyfarfod hwnnw, cymeradwyodd y Pwyllgor i fynd ati i ymgymryd â'r broses o ystyried mabwysiadu Atodlen 3 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 2009, er mwyn sicrhau cyfundrefn ar gyfer trwyddedu a rheoleiddio sefydliadau rhyw drwy'r sir.

1.7 Yn ogystal, fe gymeradwyodd y Pwyllgor i awdurdodi'r Pennaeth Adran Amgylchedd i ymgymryd â phroses o ymgynghori am 28 diwrnod, gan gychwyn ar 26 Gorffennaf 2021. Pan ddaeth y cyfnod ymgynghoriad i ben, cyflwynwyd adroddiad arall i'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol ar y 13 o Fedi i ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, ac i wneud penderfyniad terfynol ynglŷn ag argymhelliad i'r Cyngor Llawn.

1.8 Penderfyniad unfrydol y Pwyllgor oedd i argymell i'r Cyngor Llawn fabwysiadu'r grymoedd, ynghyd ag argymhellion cysylltiol ar y rhybudd statudol, y dyddiad y daw'r mabwysiadu i rym, a dirprwyo'r grym i'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol i bennu ffioedd, amodau safonol a chynllun prosesu ceisiadau.

**Beth fydd mabwysiadu'r grymoedd yn ei olygu?**

1.9 Byddai mabwysiadu'r grymoedd yn Atodlen 3 fel y'i diwygiwyd ledled y sir yn galluogi'r Cyngor i reoleiddio a thrwyddedu sefydliadau rhyw. Mae sefydliadau rhyw yn cynnwys:

- Siop ryw (gwerthiant o nwyddau o natur rywiol)
- Sinema rhyw (dangos ffilmiau gyda chynnwys sylweddol o natur rywiol)
- Mangre adloniant rhywiol (eiddo busnes sydd yn cynnal adloniant byw o natur rywiol yn aml a rheolaidd).

1.10 Byddai mabwysiadu hefyd yn galluogi'r Cyngor i osod amodau safonol ar drwyddedau sefydliad rhyw a chodi ffi rhesymol mewn perthynas â nhw.

1.11 Yn olaf, byddai mabwysiadu yn galluogi'r Cyngor i gymryd camau gorfodaeth mewn perthynas â'r troseddau canlynol (nodir y gosb uchafswm o gollfarnu gan Lys Ynadon mewn cromfachau):

- defnyddio unrhyw adeilad, cerbyd, cwch neu stondin fel sefydliad rhyw ac eithrio pan fo hynny'n unol â thrwydded a roddir gan y Cyngor (dirwy diderfyn);
- gwneud datganiad ffals mewn perthynas â chais am drwydded sefydliad rhyw (dirwy diderfyn);
- methiant deilydd trwydded i arddangos ei drwydded heb esgus resymol (dirwy heb fod yn uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol, sef £1,000.00 ar hyn o bryd).

1.12 Mae penderfyniad wedi ei wneud i flaenoriaethu'r argymhelliad i'r Cyngor Llawn fabwysiadu'r drefn, oherwydd bod cwmni wedi cyflwyno cais o fwriad i agor siop rhyw yn Abermaw, a bod hyn wedi amlygu'r bwlch yn y gyfundrefn drwyddedu.

## 2 YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS

2.1 Lansiwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar 26 Gorffennaf 2021 a daeth i ben ar 23 Awst 2021.

2.2 Cyhoeddwyd datganiad i'r wasg a bu ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol yr Awdurdod. Gyrrwyd negeseuon e-bost i randdeiliaid allweddol yn gwahodd iddynt gyfrannu at yr ymgynghoriad, gan gynnwys i Heddlu Gogledd Cymru a chynghorau tref/cymuned. Yn ogystal, rhoddwyd holiadur ar y wefan er mwyn hwyluso cyfranogiad y cyhoedd i'r ymgynghoriad.

2.3 Derbyniwyd e-bost oddi wrth Heddlu Gogledd Cymru yn cadarnhau nad oedd gwrthwynebiad, yn ogystal ag e-bost oddi wrth Gyngor Tref Cricieth.

2.4 Derbyniwyd 102 o ymatebion i'r holiadur. O blith rhain, cafwyd ymatebion oddi wrth unigolion, 7 aelod o Gyngor Gwynedd, 2 glerc cyngor tref ac 1 busnes:

2.4.1 Roedd 40 o'r ymatebion yn gefnogol i'r egwyddor o fabwysiadu, 19 yn gwrthwynebu a'r gweddill yn anghyflawn.

2.4.2 O blith y rhai oedd yn gwrthwynebu, cynigiwyd sylwadau gan 15 ohonynt:

- Roedd 3 ymatebydd o'r farn nad oedd angen mabwysiadu trefn oherwydd nad oedd angen rheoleiddio siopau o'r fath yng Ngwynedd, gan nad oedd yn debygol y byddai llawer o geisiadau na galw am sefydliadau o'r fath.
- Nododd unigolyn arall nad oedd rhai siroedd yn dewis rheoleiddio siopau rhyw.

- Roedd 4 ymatebydd yn teimlo fod mabwysiadu'r drefn yn wastraff arian cyhoeddus.
- Roedd 8 ymatebydd yn nodi eu gwrthwynebiad ar sail foesol neu yn gweld y drefn yn ffordd o normaleiddio ecsploetio merched ifanc. Pryderodd rhai bod y drefn yn mynd i arwain at blant yn cael eu dylanwadu mewn modd amhriodol ac y byddai sefydliadau trwyddedig yn annog puteindra.
- Roedd un o'r farn y byddai grymoedd rheoleiddio yn aneffeithiol.

2.5 Yn gyffredinol, roedd mwyafrif amlwg (68%) o'r ymatebion cyflawn ddaeth i law o blaid mabwysiadu Atodlen 3 i gael trefn rheoleiddio sefydliadau rhyw.

2.6 Gan ystyried yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus, penderfyniad unfrydol y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a'r ffaith mai rhoi'r grymoedd i'r Cyngor reoleiddio sefydliadau rhyw yw'r amcan yma, credir bod sail cadarn i'r Cyngor Llawn fwrw ymlaen i gymeradwyo'r argymhelliad i fabwysiadu Atodlen 3, ynghyd ag argymhellion cysylltiol.

## 3. CAMAU NESAF

3.1 Os yw'r Cyngor Llawn yn gwneud penderfyniad yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol:

- Rhagwelir y bydd y penderfyniad i fabwysiadu yn dod i rym yn Rhagfyr 2021
- bydd y Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol yn trefnu bod hysbysebion statudol yn cael eu cyhoeddi cyn gynted a bo modd mewn papur newydd lleol am 2 wythnos yn olynol, gyda'r cyntaf ddim hwyrach na 28 diwrnod cyn y dyddiad daw y penderfyniad mabwysiadu i rym.
- Bydd y Pwyllgor hwn ailymgynnull yn Nhachwedd 2021 cyn y dyddiad y daw'r penderfyniad mabwysiadu i rym, er mwyn pennu ffioedd, gosod amodau safonol a chynllun prosesu ceisiadau.

## 4. ASESIADAU CYDRADDOLDEB A LLESIANT

4.1 Mae'r asesiad cydraddoldeb a baratowyd yn unol â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 wedi ei atodi. Mae'r asesiad hwn yn ddiweddariad yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, ac wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol ar y 13 o Fedi 2021. Tra bo'r asesiad fel y'i diweddarwyd yn cyfarch materion a godwyd yn yr ymgynghoriad, daethpwyd i'r casgliad nad oedd rheswm teilwng wedi ei ddatgelu i beidio â pharhau gyda'r broses o argymell mabwysiadu, ac felly argymhellir y dylid bwrw ymlaen â'r broses honno.

4.2 Mae'r cynnig yn rhoi cyfle i'r Awdurdod Trwyddedu hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a'r ddyletswydd economaidd gymdeithasol, drwy sefydlu cyfundrefn lle mae sefydliadau yn cael eu rheoleiddio ac yn gorfod gweithredu mewn ffordd gyfreithlon.

4.3 Yn ogystal, yn unol ag argymhellion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi ystyried egwyddorion y ddeddfwriaeth honno ac yn benodol y 5 ffordd o weithio. Mae'r asesiad llesiant a ddiweddarwyd hefyd wedi ei atodi.

## 5. ARGYMHELLIAD

5.1 Bod y Cyngor Llawn yn:

- Mabwysiadu ledled y sir Atodlen 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Plismona a Throseddu 2009, gan ddod yn weithredol ddim cynt na 1 Rhagfyr 2021
- Cyfarwyddo'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol i gyhoeddi'r hysbysebion statudol ynghlwm â'r penderfyniad i fabwysiadu am 2 wythnos yn olynol, gyda'r cyntaf ddim hwyrach na 28 diwrnod cyn y dyddiad y daw'r penderfyniad i rym
- ddirprwyo'r materion o bennu ffioedd, gosod amodau safonol a chynllun prosesu ceisiadau i'r Pwyllgor Trwyddedu Canolog.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro** Mae'r adroddiad yn amlygu'r broses a ddilynwyd gyda chefnogaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol. Mae'n bwysig fod y Cyngor yn dal sylw at yr Asesiad Effaith a' chanlyniadau'r ymgynghoriad wrth ddod i gasgliad ar yr argymhelliad.

**Pennaeth Cyllid:** Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol

---

**ATODIADAU**

**Atodiad 1:** Asesiad effaith cydraddoldeb a llesiant

**ATODIAD 1**

**ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB A LLESIANT – MABWYSIADU CYFUNDREFN RHEOLEIDDIO SIOPAU RHYW**

Yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mae'r adroddiad hwn wedi ystyried yr effaith cydraddoldeb o'r cynnig fel a ganlyn:

Hil: Dim effaith wedi ei adnabod
Iaith Gymraeg: Dim effaith wedi ei adnabod
Anabledd: Dim effaith wedi ei adnabod
Rhyw: Effaith bositif wedi ei adnabod. Mae yma nifer sylweddol o ferched yn gweithio mewn mangreoedd adloniant rhywiol. Bydd cyfundrefn trwyddedu yn golygu bod y sefydliadau hyn yn cael eu rheoleiddio, gan helpu taclo unrhyw ymarferion cyflogaeth anfoesegol neu anghyfreithlon (e.e. caethwasiaeth fodern) fyddai'r garfan hon o weithwyr yn fwy tebygol o gael eu hamlygu iddyn nhw yn y swyddi hyn. Nododd un ymatebydd fod rheoleiddio sefydliadau rhyw o bosib yn gallu cael effaith bositif ar leihau trais yn erbyn benywod.
Oedran: Effaith bositif wedi ei adnabod. Yn gyffredinol, oedolion ifainc fyddai'n fwy tebygol o weithio fel perfformwyr mewn mangreoedd adloniant rhywiol. Bydd cyfundrefn trwyddedu yn golygu bod y sefydliadau hyn yn cael eu rheoleiddio, gan helpu taclo unrhyw ymarferion cyflogaeth anfoesegol neu anghyfreithlon (e.e. caethwasiaeth fodern) fyddai'r garfan hon o weithwyr yn fwy tebygol o fod yn agored iddyn nhw yn y swyddi hyn. Yn ogystal, bydd cyfundrefn drwyddedu yn galluogi'r Awdurdod Trwyddedu i atal sefydliadau o'r fath mewn lleoliadau sensitif (e.e. wrth ymyl ysgolion), gan helpu i warchod y carfan pwysicaf yn ein cymdeithas drwy warchod plant rhag niwed; a sicrhau fod amodau ar drwyddedau i atal mynediad i unigolion ifanc .
Cyfeiriadedd rhywiol: Dim effaith wedi ei adnabod.
Crefydd neu gred: Effaith bositif wedi ei adnabod. Bydd cyfundrefn drwyddedu yn galluogi'r Awdurdod Trwyddedu i atal agor sefydliadau o'r fath mewn lleoliadau sensitif (e.e. wrth ymyl addoldai), gan helpu lleihau ardrawiad andwyol ar ymarfer crefyddol unigolion.
Ailbennu rhywedd: Dim effaith wedi ei adnabod.
Beichiogrwydd a mamolaeth: Dim effaith wedi ei adnabod.
Priodas a phartneriaeth sifil: Dim effaith wedi ei adnabod; er fod un ymatebydd o'r farn yn nodi mai arwydd o gariad mewn perthynas yw rhyw ac nid rhywbeth i'w ecsbloetio mewn busnes.

Bydd y cynnig yn rhoi cyfle i'r Awdurdod Trwyddedu hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a'r ddyletswydd economaidd gymdeithasol, drwy sefydlu cyfundrefn lle mae sefydliadau yn cael eu rheoleiddio ac yn gorfod gweithredu mewn ffordd gyfreithlon.
Derbyniwyd sylwadau gan rai ymatebwyr yn nodi fod y cynnig yn caniatáu cyfle i reoleiddio gofod diogel i unigolion o'r gymuned LGBTQ+

Ar y sail nad oes effaith negyddol wedi ei adnabod, argymhellir bwrw ymlaen â'r cynnig.

1. o ran Llesiant:

Yn unol ag argymhellion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae'r adroddiad hwn hefyd wedi ystyried egwyddorion y ddeddfwriaeth, ac yn benodol y cysyniad o'r 5 ffordd o weithio fel y dangosir isod:

Hirdymor – Unwaith mae penderfyniad i fabwysiadu, bydd cyfundrefn barhaol mewn lle fydd yn galluogi trwyddedu a rheoleiddio sefydliadau rhyw ledled y sir. Yn y tymor hir bydd hyn yn cyfrannu

at gynllunio cyfrifol o'r fath sefydliadau, a thrwy hynny cyfrannu at agweddau a pharch mwy cyfrifol tuag at warchodaeth o'n cymunedau a dealltwriaeth o'r angen i ystyried yr effaith ar eraill.
Atal – Bydd mabwysiadu yn galluogi'r Cyngor i gadw rheolaeth ar sefydliadau o'r natur yma, gan helpu atal unrhyw niwed cymdeithasol yn deillio ohonynt neu weithgareddau fyddai'n galluogi caethwasiaeth fodern.
Integreiddio – Mae'r broses ymgynghori yn cyfarch nodweddion nifer o sefydliadau (Cyngor Gwynedd, yr Heddlu, cynghorau cymuned a thref, trigolion y sir yn gyffredinol, y diwydiant sefydliadau rhyw). Bydd hefyd yn cyfrannu at amcanion yr Heddlu o ran taclo caethwasiaeth fodern ac at uchelgais y Cyngor o weld cymunedau sy'n llwyddo a ffynnu.
Cydweithio – Byddai unrhyw benderfyniad mabwysiadu o ganlyniad i ymgynghoriad gyda'r uchod.
Cynnwys – Bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn digwydd cyn penderfyniad terfynol ar y mater.

**Mae'r asesiad llesiant hwn wedi ei adolygu a'i ddiweddaru yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus , a chyn i'r mater gael ei adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol ar y 13 Medi 2021, am yr eildro. Mae'r rhannau sydd wedi eu diweddaru wedi eu tanlinellu.**